Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

# Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020/21

# Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020/21: ffocws a chynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Crynodeb Gweithredol | 3 |
| 2. Hyd y Cynllun Ffioedd a Mynediad | 4 |
| 3. Lefelau Ffioedd | 4 |
| 4. Buddsoddiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad | 5 |
| 5. Adolygiad Strategol | 7 |
| 6. Partneriaeth â Myfyrwyr | 10 |
| 7. Grwpiau y nodwyd eu bod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch | 11 |
| 8. Amcanion, Gweithgareddau a Thargedau | 14 |
| 9. Cymorth Ariannol i'n Dysgwyr | 19 |
| 10. Monitro a Gwerthuso'r Cynlluniau Ffioedd a Mynediad | 20 |

# 1. Crynodeb Gweithredol

Cenhadaeth Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yw Trawsnewid Addysg; Trawsnewid Bywydau. Darpara Grŵp Y Drindod Dewi Sant, sy'n cynnwys Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, addysg bellach ac uwch o 17 o gampysau ar draws de-orllewin Cymru, yn ogystal ag yng Nghaerdydd, Llundain a Birmingham, gan ddarparu cyfleoedd dihafal i hyrwyddo symudedd cymdeithasol ac economaidd, i ehangu mynediad, ac i gefnogi dysgwyr o bob cefndir yn ystod pob cam yn eu haddysg.

Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn yn nodi ein strategaeth ar gyfer buddsoddi'r ffioedd a gawn yn 2020/21 i gefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch sy'n sylfaenol i'n Cenhadaeth. Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar amcanion allweddol sy'n gysylltiedig â'n pedair Blaenoriaeth Strategol:

- Rhoi dysgwyr yn gyntaf
- Rhagoriaeth mewn addysgu, ysgolheictod ac ymchwil cymhwysol
- Creu cyfleoedd trwy bartneriaethau
- Prifysgol i Gymru

Mae'r targedau yn y Cynllun yn seiliedig ar ddadansoddi data cofrestru, cadw a chyflawniad dysgwyr ar gyfer Grŵp Y Drindod Dewi Sant ac ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn fwy cyffredinol. O ganlyniad i'r dadansoddiad hwnnw, rydym wedi dewis canolbwyntio ein targedau ar gynyddu cyfranogiad a dileu rhwystrau i astudio ar gyfer y grwpiau canlynol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol:

- Dysgwyr rhan-amser
- Dysgwyr o ardaloedd difreintiedig yng Nghymru
- Dysgwyr sy'n datgan anabledd
- Dysgwyr o blith pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME)
- Dysgwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r Cynllun yn rhoi pwyslais arbennig ar y camau a gymerwn i gynyddu niferoedd ein dysgwyr o'r grwpiau hyn; i gefnogi'r dysgwyr hyn i gyflawni eu potensial llawn a chynyddu eu sgiliau a'u cyflogadwyedd; a darparu profiad o ansawdd uchel gydol eu hastudiaethau.

Yn y Cynllun, darparir cyfoeth o wybodaeth am y ffyrdd y bwriadwn fuddsoddi'r ffioedd a dderbyniwn yn 2020/21, gan amrywio (er enghraifft) o ein gwaith agos gydag ysgolion a chymunedau i godi dyheadau, gan gynnwys trwy weithgarwch rhanbarthol Ymgyrraedd yn Ehangach; darparu ein Tystysgrif Addysg Uwch mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle i wella cyfranogiad dysgwyr BAME a dysgwyr aeddfed; ein darpariaeth gynhwysfawr i ddysgwyr sydd ag iechyd meddwl ac anableddau eraill; ein gweithgareddau i wella cyflogadwyedd sy'n rhoi cymorth i fagu hyder, dyheadau a sgiliau; ein portffolio helaeth o raglenni a gynigir mewn partneriaeth â chyflogwyr, gan gynnwys y prentisiaethau Uwch a Gradd-brentisiaethau cynyddol a ddarparwn; ac amrywiaeth y cyfleoedd a ddarparwn i ddysgwyr sy'n dymuno cyflawni'r cyfan neu ran o'u hastudiaethau yn Gymraeg. Mae'r Cynllun hefyd yn rhoi manylion y pecyn bwrsariaethau ac ysgoloriaethau cystadleuol a ddarparwn i ddysgwyr yn 2020/21.

Ar adeg o newid sylweddol i'r sector addysg uwch, rydym wrthi'n adolygu ac yn atgyfnerthu ein gweithgareddau, ac yn mireinio ein strwythurau academaidd a chymorth proffesiynol, er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau'r dyfodol ac i barhau i ddarparu profiad o'r ansawdd uchaf i'n dysgwyr.

£16,540,347 oedd cyfanswm yr incwm ffioedd i'w fuddsoddi er mwyn cyflawni amcanion allweddol ein Cynllun Ffioedd a Mynediad fydd i'w ddyrannu yn y modd canlynol:

Cyfle cyfartal: **£11,026,898**
Hyrwyddo addysg uwch: **£5,513,449**

Yn unol â'n Siartr Myfyrwyr, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'i dysgwyr ac Undeb y Myfyrwyr i ddarparu profiad dysgu o ansawdd uchel. Datblygwyd y Cynllun mewn partneriaeth â'n dysgwyr, ac mae'n defnyddio adborth penodol ar rwystrau posibl a wyneba'r grwpiau annigonol eu cynrychiolaeth yn ein plith.

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi gwneud y datganiad canlynol i gefnogi'r Cynllun:

*'Hoffai Undeb y Myfyrwyr ganmol y Brifysgol ar ei dull o ddatblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn. Mae adborth o dan arweiniad myfyrwyr wedi bod wrth wraidd y gwaith o lunio'r cynllun hwn ac rydyn ni'n arbennig o gyffrous o weld canlyniadau ffocws uwch ar ddysgwyr rhan-amser. Hoffem hefyd longyfarch y Brifysgol am roi'r fath bwyslais ar Iechyd Meddwl Myfyrwyr, sy'n her gynyddol sylweddol a chynyddol y mae'r myfyriwr modern yn ei hwynebu. Mae'r cynllun hwn yn dystiolaeth o ymrwymiad parhaus i bartneriaethau yn Y Drindod Dewi Sant, ymgynghorwyd yn llawn â ni yn rhan o'r broses hon ac rydym yn falch o gymeradwyo'r ddogfen hon.'*

Rob Simkins, TSDSU Group President

# 2. Hyd y Cynllun Ffioedd a Mynediad

**Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn yn effeithiol ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21, h.y. 1 Awst 2020 – 31 Gorffennaf 2021.**

# 3. Lefelau Ffioedd

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu defnyddwyr, yn unol â'r arweiniad i ddarparwyr addysg uwch a gyhoeddir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Adeg ysgrifennu, nid yw trefniadau ffioedd dysgu ar gyfer 2020/21 wedi'u cadarnhau gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, y rhain yw'r ffioedd dysgu blynyddol y bwriadwn eu codi ar ein dysgwyr israddedig amser llawn newydd o'r DU a'r UE yn 2020/21, ar draws yr holl leoliadau darparu:

| Rhaglen Astudio | Ffi |
|---|---|
| Tystysgrif AU | £9,000 |
| HND | £9,000 |
| Gradd Sylfaen | £9,000 |
| Graddau Israddedig | £9,000 |
| Blwyddyn Ryngosod (blwyddyn mewn diwydiant) | £1,800 |
| Meistr Integredig | £9,000 |
| TAR | £9,000 |

O ystyried y ffioedd hyn, y ffioedd cyfartalog ar gyfer pob myfyriwr israddedig amser llawn fydd:

| | |
|---|---|
| Myfyrwyr israddedig amser llawn (heb gwrs rhyngosod) | £27,000 |
| Myfyrwyr israddedig amser llawn (gyda chwrs rhyngosod) | £28,800 |
| TGAU amser llawn (SAC) | £9,000 |

Rydym yn darparu gwybodaeth ac arweiniad cywir i ddarpar ddysgwyr a rhai presennol i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus am ddysgu yn y dyfodol a datblygiad personol, a byddwn yn rhoi gwybodaeth am ein lefelau ffioedd ar gyfer 2020/21 yn y ffyrdd canlynol:

- Trwy gyhoeddi'r **Cynllun Ffioedd a Mynediad** ar wefan y Brifysgol, gan gynnwys y ffioedd cyfartalog ar gyfer cwblhau'r cwrs
- Ar **wefan y Brifysgol**, ar dudalennau'r cwrs a'r rhai ar gyfer arweiniad ariannol;
- Ar **wefan Unistats**;
- Ar **wefan UCAS**;
- Trwy daflenni gwybodaeth a chyhoeddiadau megis ein **Canllaw i Rieni**;
- Trwy ymatebion i ymholiadau cwrs, ac mewn digwyddiadau gwybodaeth megis UCAS a ffeiriau gyrfa ysgol;
- Trwy lythyrau cynnig a anfonwyd at ymgeiswyr, yn ogystal â thrwy borth myfyrwyr MyTSD.

# 4. Buddsoddiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad

Mae darparu profiad o ansawdd uchel i'n dysgwyr wrth wraidd Cenhadaeth y Brifysgol: Trawsnewid Addysg; Trawsnewid Bywydau. Darpara Grŵp Y Drindod Dewi Sant, sy'n cynnwys Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, addysg bellach ac uwch o 17 o gampysau ar draws de-orllewin Cymru, yn ogystal ag yng Nghaerdydd, Llundain a Birmingham, gan ddarparu cyfleoedd dihafal i hyrwyddo symudedd cymdeithasol ac economaidd, i ehangu mynediad, ac i gefnogi dysgwyr o bob cefndir yn ystod pob cam yn eu haddysg. Darpara strwythur Grŵp Y Drindod Dewi Sant ddull o gynllunio'r cwricwlwm a dilyniant sy'n gwella'n sylweddol y cyfleoedd i ddysgwyr fanteisio ar addysg uwch yn y rhanbarth a symud ymlaen trwyddi. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â thri choleg addysg bellach y tu allan i Grŵp Y Drindod Dewi Sant i ddarparu cyfleoedd i gymunedau fanteisio ar addysg uwch.

Yn yr un modd, crea ein canolfannau dysgu gyfleoedd i bobl o bob cefndir astudio rhaglen addysg bellach yn eu cymunedau. Er enghraifft, nid yw llawer o fyfyrwyr yn ein Canolfan Ddysgu yn Birmingham, wedi cael cysylltiad blaenorol ag addysg uwch a chawsant eu derbyn ar sail profiad blaenorol yn hytrach na chymwysterau ffurfiol. Y brif nodwedd sy'n uno yw dyhead yn hytrach na chefndir: mae bron pawb yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau gwell dyfodol iddynt eu hunain trwy well cyfleoedd cyflogaeth, trwy ddatblygu mewn rôl gyfredol, trosglwyddo o rôl gyfredol i ddiwydiant newydd, sefydlu busnes personol, neu ddarganfod dihangfa rhag diweithdra. Mae darparu gwerth cymorth i'r teulu, bod yn fodel rôl i blant, cyflawni dyheadau personol, ac ailddarganfod balchder proffesiynoli a hunanwerth yn themâu cyffredin.

Mae ein gwaith ym mhob rhanbarth lle'r ydym wedi ein lleoli yn hanfodol i ddealltwriaeth ac wrth ymateb i anghenion cymunedol a dinesig, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, darpar gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau. Rydym yn ymrwymo wrth brosiectau sylweddol yn y gymuned er mwyn darparu cyfleoedd cyflogaeth a gwella i'r rhanbarth, er enghraifft **Yr Egin**. Rydym yn bartner ym **Mhartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru**, rydym yn gweithio gydag ysgolion ar draws y rhanbarth, rydym yn aelod o **Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru** ac rydym yn gweithio mewn cydweithrediad â darparwyr addysg uwch eraill yng Nghymru i chwilio am arian a chyflawni prosiectau a gaiff effaith hirdymor ar ddysgu, addysgu a llesiant dysgwyr.

Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn yn nodi ein strategaeth ar gyfer buddsoddi'r ffioedd a gawn yn 2020/21 i gefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch sy'n sylfaenol i'n Cenhadaeth, a hynny er lles dysgwyr a chymunedau. Mae'r symiau sylweddol a fuddsoddwn yn adeiladu ac yn gwella ein dulliau cymorth sydd wedi eu hymgorffori ac a ddarperir y tu allan i fuddsoddiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad.

Diffinnir ein trywydd i'r dyfodol yng **Nghynllun Strategol y Brifysgol 2017-2022** gan gadarnhau ein hymrwymiad i'n dysgwyr ac i Gymru'n benodol - i'w diwylliant, ei threftadaeth a'i hiaith, ac i ffyniant ac iechyd hirdymor ei dinasyddion. Cydnabyddwn ein rhan leol, genedlaethol, ryngwladol a dinesig yn ddarparwr addysg uwch, a'r cyfrifoldebau sydd arnom. I adlewyrchu'r ymrwymiad hwn, rydym wedi gwneud y saith nod a'r pum ffordd o weithio a geir yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ganolog i'n cynllunio, ac wedi sicrhau bod ein dyheadau'n cyfateb yn agos i'r rhai a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru yn Symud Cymru Ymlaen 2016-21. Maent hefyd yn ategu uchelgeisiau Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru 2018, yn ogystal â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru o gynyddu cenhadaeth ddinesig addysg uwch yng Nghymru trwy bedair thema Lle Arweiniol; Cysylltiadau ag ysgolion; Dinasyddiaeth weithredol; a menter ac arloesi.

Mae'r Cynllun Strategol yn mynegi ystod o werthoedd sydd wrth wraidd ein ffordd o weithio, gan gynnwys

- Addysgu ardderchog wedi ei lywio gan ysgolheictod ac arfer proffesiynol, ac ymchwil cymhwysol sy'n dylanwadu ar wybodaeth a pholisi yng Nghymru a thu hwnt.
- Cynwysoldeb, trwy ddileu rhwystrau i gyfranogiad a chefnogi pobl o bob math o gefndiroedd ac amgylchiadau i gyflawni eu potensial.
- Cyflogadwyedd a chreadigrwydd, trwy gynnig rhaglenni addysgol sy'n datblygu sgiliau entrepreneuraidd a chreadigol, gan alluogi dysgwyr i gael y cyfleoedd gorau i sicrhau swydd ac i gyfrannu at ffyniant eu cymunedau.
- Cymru a'i chymeriad arbennig, trwy ymgorffori nodau **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** ac yn ein holl weithgareddau, a thrwy ddathlu iaith, treftadaeth a diwylliant bywiog Cymru.

Mae'r gwerthoedd hyn wedi eu hadlewyrchu yn ein pedair Blaenoriaeth Strategol ar gyfer 2017-22:

- Rhoi dysgwyr yn gyntaf
- Rhagoriaeth mewn addysgu, ysgolheictod ac ymchwil cymhwysol
- Creu cyfleoedd trwy bartneriaethau
- Prifysgol i Gymru

Mae'r Cynllun Strategol yn seiliedig ar nifer o is-strategaethau, a phob un yn ceisio cyflawni targedau a dyheadau'r Cynllun Strategol. O berthnasedd arbennig i'r Cynllun Ffioedd a Mynediad mae'r Strategaeth Ehangu Mynediad ac Ymgysylltu â'r Gymuned; y Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi; y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog; y Strategaeth Cadw Myfyrwyr; y Strategaeth Cyflogaeth a Chyflogadwyedd; y Cynllun Cydraddoldeb Strategol; a chynlluniau strategol ein meysydd academaidd. Mae ein gweithgarwch Ymgyrraedd yn Ehangach o bwys arbennig yng nghyd-destun ein Cynllun Ffioedd a Mynediad, wrth gyfrannu at brosiectau a thargedau rhanbarthol i gefnogi mynediad at addysg bellach i grwpiau a ddiffiniwyd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Dosberthir ein buddsoddiad yn gymesur i'r targedau y ceisiwn eu cyflawni yn seiliedig ar ein Cynllun Strategol a dadansoddiad o'n poblogaeth o ddysgwyr. Mae'r gwaith a gyflawnir i ddiwallu'r targedau hyn yn cynnwys llenyddiaeth a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth a gynhelir i gefnogi ein dysgwyr a chodi dyheadau ar gyfer darpar ddysgwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; megis creu cyfleoedd sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, gwybodaeth i grwpiau penodol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym myd addysg; presenoldeb mewn digwyddiadau sy'n anelu at hyrwyddo addysg uwch fel dewis bywyd a chynyddu dewisiadau cyflogaeth,

a chyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig â mentrau sefydliadol megis Dylunio Bywyd, fforymau ymgysylltu â myfyrwyr a grwpiau cymorth.

Gweithreda'r Brifysgol systemau a fireiniwyd ar gyfer cynllunio strategol ac ariannol ar draws Grŵp Y Drindod Dewi Sant. Mae targedau'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yn rhan annatod o'n fframwaith Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI). Wrth ddatblygu ein Cynllun Ffioedd a Mynediad, rydym wedi ymateb i adborth, boed yn generig neu'n benodol, sydd wedi dod i law gan CCAUC ar gynlluniau blaenorol, ac wedi addasu ein dull o gynllunio Ffioedd a Mynediad yn unol â hynny i ddarparu gwybodaeth gliriach a manylach sy'n rhoi gwybod i ddysgwyr posibl a chyfredol, ysgolion a cholegau a rhanddeiliaid megis y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn yn nodi ein strategaeth ar gyfer buddsoddi'r ffioedd a gawn yn 2020/21 i gefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch sy'n sylfaenol i'n Cenhadaeth. Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau aliniad rhwng ein Cynllun Strategol, is-strategaethau a datblygiadau sefydliadol eraill, gan sicrhau bod yr amcanion, y data wrth wraidd a'r targedau'n gyson. Adlewyrchir, felly, werthoedd a blaenoriaethau ein Cynllun Strategol yn uniongyrchol yn ein Cynllun Ffioedd a Mynediad, ac mae amcanion perthnasol yn gyffredin i'r naill gynllun a'r llall. Mae'r amcanion, yn eu tro, yn unol â chategorïau gwariant Llywodraeth Cymru. Yn yr un modd, mae'r mwyafrif o'r targedau yn fwriadol yn gyffredin i'r Cynllun Strategol a'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, wedi eu chwyddo neu eu haddasu pan fo'n briodol i adlewyrchu Fee and Access Plan, a'n gwerthusiad o lwyddiant strategaethau buddsoddi blaenorol.

Dosberthir ein 24 targed yn gyfartal dan benawdau 'cyfle cyfartal' a 'hyrwyddo addysg uwch'. O fewn y penawdau hyn maent yn cyd-fynd â chategorïau a ddiffinnir gan Lywodraeth Cymru er mwyn ei gwneud yn glir pa amcan maent yn ceisio ei gyflawni. Cyfanswm yr incwm ffioedd i'w fuddsoddi i gyflawni prif amcanion ein Cynllun Ffioedd a Mynediad fydd £16,540,347 i'w ddyrannu yn y modd hwn:

Cydraddoldeb cyfle: £11,026,898
Hyrwyddo addysg uwch: £5,513,449

Mae cynnydd ein buddsoddiad mewn cyfle cyfartal yn adlewyrchu ein ffocws ar gynyddu cyfranogiad a chyflawniad dysgwyr o'n grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Buddsoddir rhan o'r incwm hwn mewn gweithgarwch Ymgyrraedd yn Ehangach. Yn 2020/21 byddwn yn buddsoddi £146,052 mewn mentrau Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach Rhanbarthol.

# 5. Adolygiad Strategol

Wrth galon prosesau cynllunio'r Drindod Dewi Sant mae ein cyfraniad i ddatblygiadau a blaenoriaethau cenedlaethol, yn ogystal ag adfyfyrio ar lwyddiant, neu fel arall, gweithgareddau a gyflawnwyd gennym yn y gorffennol.

Wrth ddatblygu Cynllun Ffioedd a Mynediad, rydym wedi adolygu'n ofalus lwyddiant ein Cynlluniau blaenorol. Rydym wedi cymharu cynnwys, dyluniad a chyflwyniad ein cynlluniau â'r rheini sydd gan sefydliadau eraill yng Nghymru, gan nodi a mabwysiadu arfer gorau. Mae ein dull o hunanwerthuso Cynlluniau Ffioedd a Mynediad blaenorol wedi cynnwys monitro'r gwaith o gyflawni amcanion a thargedau yn ystod y flwyddyn. Y Tîm Polisi a Chynllunio sy'n arwain y broses werthuso, sy'n gweithio'n agos gyda'r swyddogion arweiniol ar gyfer pob targed, ar draws y Grŵp, er mwyn sicrhau y mesurir cynnydd a'i gofnodi'n gywir, a bod her briodol os nad yw'r targed wedi ei gyrraedd. Craffwyd yn fanwl ar y gwaith o gwblhau'r Datganiad Monitro Blynyddol, gan roi tystiolaeth o berfformiad y sefydliad a'r Grŵp o'i gymharu â thargedau cymeradwy gan y Pwyllgor Polisi Corfforaethol a Phwyllgor Adnoddau a Pherfformiad y Brifysgol, gan ganiatáu myfyrio a llywio strategaeth y dyfodol ar draws Grŵp Y Drindod Dewi Sant.

Rydym yn ceisio sicrhau bod ein targedau'n rhai CAMPUS. Bellach mae'r mwyafrif yn rhai meintiol ac yn defnyddio data cyhoeddedig sy'n cysylltu'n uniongyrchol â Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol neu Fesurau Cenedlaethol Perfformiad Addysg Uwch CCAUC. Credwn fod y dull hwn yn gwneud ein proses gynllunio a darparu'n gadarnach, ac yn caniatáu lefel uwch o graffu a her gan randdeiliaid allweddol, gan gynnwys dysgwyr, llywodraethwyr a CCAUC. Wrth ddylunio ein targedau, rydym yn ein meincnodi ein hunain yn fewnol ac rydym hefyd yn defnyddio ffigurau cyfartalog y sector a meincnodau allanol eraill yng Nghymru a ledled y DU, megis y rhai a gyhoeddwyd trwy'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Deilliannau Graddedigion (TEF). Cydnabyddwn mai proses ailadroddol yw cynllunio ffioedd ac rydym yn ymgynghori â'n cyfadrannau a'n gwasanaethau proffesiynol, yn ogystal ag **Undeb y Myfyrwyr,** i gael sicrwydd bod yr ymrwymiadau a'r targedau a nodir yn gyraeddadwy. Ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020/21, rydym hefyd wedi ymgynghori â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ynghylch ein targedau cyfrwng Cymraeg arfaethedig, sy'n ategu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y'i nodir yn ei Strategaeth Iaith Gymraeg.

Darparodd ein Cynlluniau Ffioedd fuddsoddiad mewn meysydd allweddol er lles grwpiau y nodir eu bod yn bwysig dros ben i Grŵp y Brifysgol, Llywodraeth Cymru a'r sector addysg yng Nghymru. Rydym wedi ceisio dylanwadu ar newid trwy ymwneud â grwpiau o bobl nad oeddent yn flaenorol, o bosibl, yn ystyried addysg uwch yn ddewis bywyd, trwy weithio gyda dysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd i'w helpu i ddatblygu sgiliau y gellir eu defnyddio ym maes ymchwil, gweithgareddau dysgu a'r gweithle.

Llywiwyd ein ffocws a'n gweithgareddau gan adroddiadau sectoraidd a chenedlaethol, strategaethau a datganiadau, gan gynnwys:

- Adolygiad Hazelkorr
- Adolygiad Diamond
- **Datganiad Cymru ar Addysg Uwch**
- **Strategaeth Cymraeg 2050**
- **Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg yng Nghymru**
- **Cynllun Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
- Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru 2018
- Cynllun Sefydliadol Ymgyrraedd yn Ehangach Y Drindod Dewi Sant
- Strategaeth Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru (SWWRWP)
- **Mesurau Cenedlaethol CCAUC ar gyfer Perfformiad Addysg Uwch**
- **Dangosyddion Perfformiad Y DU**
- Y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol (De-orllewin a Chanolbarth Cymru)

Y dogfennau hyn sydd wedi llywio ein hamcanion, ein gweithgareddau a'n targedau er mwyn sicrhau ein bod wrth eu cyflawni, yn ogystal â chefnogi Grŵp Y Drindod Dewi Sant, hefyd yn cefnogi sector ehangach Cymru. Yn enwedig, rydym yn sicrhau bod ein targedau'n cyd-fynd â Mesurau Cenedlaethol Perfformiad Addysg Uwch CCAUC a Dangosyddion Perfformiad y DU.

Rydym hefyd yn ymwybodol o adolygiadau parhaus ar addysg bellach ac uwch, ac argymhellion sy'n dod i'r amlwg y mae angen i ni ymateb iddynt a'u gwreiddio yn ein hymarferion i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu i'n dysgwyr gyfleoedd a phrofiadau addysgol i ddiwallu eu hanghenion. Rydym yn rhagweld y bydd canlyniadau'r Adolygiad ar Addysg Ôl-18 a Chyllid (adolygiad Augar) yn effeithio ar strwythurau ffioedd dysgu yn addysg uwch y DU, a bydd yn effeithio ar sut mae dysgwyr yn gwneud dewisiadau am astudio pellach. Ar adeg o newid sylweddol i'r sector addysg uwch, rydym wrthi'n adolygu ac yn atgyfnerthu ein gweithgareddau, ac yn mireinio ein strwythurau academaidd a chymorth proffesiynol, er mwyn sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau'r dyfodol ac i barhau i ddarparu profiad o'r ansawdd uchaf i'n dysgwyr.

Yn 2017/18, ein blwyddyn academaidd ddiweddarach i'w chwblhau adeg ysgrifennu, buddsoddodd y Brifysgol £11,155,121 mewn gweithgareddau i hyrwyddo addysg uwch, a £9,203,800 i hyrwyddo cyfle cyfartal.

Mae gwerthusiad o'n llwyddiant i fodloni targedau cynlluniau ffioedd blaenorol[1] yn dangos ein bod wedi cyflawni targedau mewn amrywiaeth o feysydd. Mae'r cyflawniadau hyn wedi dylanwadu ar ein cynlluniau ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020/21. Dilëwyd rhai targedwyd i'n galluogi i ganolbwyntio ein hymdrechion ar feysydd newydd; mae eraill yn parhau'n flaenoriaethau yn ein Cynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2020/21.

O 2019/20 ymlaen, trefnir a darparir gweithgarwch academaidd y Brifysgol trwy dair athrofa. Bydd pob athrofa yn trefnu, cydlynu ac ymgorffori gweithgarwch ehangu mynediad a chyfranogi sy'n gysylltiedig â'i arbenigedd pwnc, gan gefnogi'r Brifysgol i ddarparu ar ei hymrwymiadau.

[1] Mae'r targedau a'r canlyniadau a ddyfynnir yn yr adran hon yn ymwneud â Chynllun Ffioedd a Mynediad 2017/18

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a darparwyr addysg bellach yn y rhanbarth, yng Ngrŵp Y Drindod Dewi Sant a'r tu allan iddi i ddeall uchelgeisiau, diddordebau ac anghenion eu dysgwyr, yn ogystal â darganfod rhagor am yr hyn a allai eu hatal rhag manteisio ar addysg uwch. Yn ychwanegol at weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a mynd i ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned, mae ein digwyddiadau i gyrraedd targedau wedi cynnwys sefydlu lleoliadau allgymorth, nosweithiau astudio a phenwythnosau; digwyddiadau 'diwrnod agored' i oedolion; gan roi hyblygrwydd i ddysgwyr sydd ag ymrwymiadau amser dydd fanteisio ar raglenni; gan ddarparu llwybrau cynnydd di-dor rhwng addysg bellach ac uwch oddi mewn i'n strwythur Grŵp; darparu prosiectau megis Merched mewn TGCh a phrosiectau peirianneg STEM; gan gefnogi'r gwaith o addysgu Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion.

Cafodd ein targedu i gynyddu nifer y dysgwyr yn y grwpiau canlynol eu bodloni neu rhagorwyd arnynt:

- Dysgwyr benywaidd sy'n cofrestru ar raglenni astudio Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM);
- Aelodau'r fyddin ar hyn o bryd yn cyflawni rhaglenni astudio'r Drindod Dewi Sant ar lefel israddedig;
- Dysgwyr sy'n byw yng Nghymru o gwintel isaf Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, neu mewn ardaloedd clystyrau Cymunedau'n Gyntaf;
- Dysgwyr israddedig amser llawn sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl;
- Dysgwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg (5 credyd neu ragor);
- Dysgwyr aeddfed sy'n cofrestru ar y Rhaglen Porth i'r Dyniaethau:

Mae ein gweithgareddau i ymgorffori sgiliau ar gyfer cyflogaeth ac entrepreneuriaeth, yn ogystal â pharhau i ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion dysgwyr a graddedigion, ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru i adeiladu ar weithgarwch presennol er mwyn datblygu ymhellach ddiwylliant entrepreneuraidd yn y sector. Mae hyn wedi ein helpu ni i gyrraedd ein targedau a rhagori arnynt yn y meysydd ehangach canlynol:

- Graddedigion ym maes cyflogaeth, sy'n astudio neu'r naill a'r llall, chwe mis ar ôl graddio yn 2016/17;
- Y sgôr ar gyfer bodlonrwydd cyffredinol myfyrwyr yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.

Yn y meysydd lle nad ydym wedi cyrraedd ein targedau, rydym yn ymwybodol mai meysydd heriol yw'r rhain hefyd i sefydliadau addysg ledled Cymru a'r DU, gyda nifer o brosiectau wedi eu hariannu i ddenu dysgwyr i'r meysydd hynny. I'n galluogi i symud ymlaen yn y meysydd hyn, mae angen i ni feddwl am ddulliau gwahanol o ddarparu addysg neu gydbwyso ymrwymiadau bywyd-astudio; a chysylltu'r hyn a ddysgir â phrofiad a chyfleoedd cyflogaeth a diwydiant.

Ni chyrhaeddwyd ein targedau i gynyddu niferoedd yn y grwpiau canlynol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol:

- Dysgwyr gwrywaidd sy'n cofrestru ar raglenni Addysg Gychwynnol Athrawon:
  Yn 2018, nodwyd[2] , yn y DU, dim ond 14% o athrawon blynyddoedd cynnar a chynradd oedd yn ddynion, gan arwain plant i ystyried addysgu'n swydd i fenywod. Yn Y Drindod Dewi Sant, y cofrestriadau gwrywaidd ar raglenni Addysg Gychwynnol Athrawon oedd 23% yn 2017/18, sef mymryn yn is na'n targed o 24%. Cydnabyddwn, fodd bynnag, fod hwn yn bwnc pwysig yn sector Cymru.
  Caiff dysgwyr addysg gynradd hefyd heriau sy'n ei gwneud yn anos i brifysgolion eu cefnogi, o ran mentora, cydbwysedd bywyd-gwaith, diffyg modelau rôl cryf, dulliau cymorth a diwylliant ystafelloedd staff lleoliadau. Yn y Brifysgol, bydd Yr Athrofa Addysg yn parhau i weithredu camau adferol megis lleoliadau gydag ysgolion partner sydd â chyfraddau sylweddol o staff gwrywaidd, nodi modelau rôl Mae'r gweithgareddau hyn wedi eu cynnwys yn ein dulliau, ac felly ni fyddant yn rhan o'n targedau parhaus o hyn allan. Rydym hefyd yn ymwybodol o adborth blaenorol CCAUC ar ein cynlluniau lle targedwyd gweithgarwch a buddsoddiad ar garfannau dysgwyr bach.

- Dysgwyr israddedig rhan-amser:
  Yn y DU, mae niferoedd dysgwyr rhan-amser yn parhau i ddisgyn yn gyffredinol:, ar ôl disgyn tua 30% rhwng 2012-13 a 2016-17[3] . Fodd bynnag, cofnodwyd cynnydd rhwng 2016/17 a 2017/18, yn rhannol oherwydd cynnydd mewn prentisiaethau. Oddi mewn i Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, cwympodd cyfran y dysgwyr rhan-amser o 28.6% yn 2015/16 i 25.3% yn 2017/18. Dros yr un cyfnod, cwympodd y gyfran yn Y Drindod Dewi Sant o 33.7% i 24.2%. 2,473 oedd nifer y dysgwyr rhan-amser yn Y Drindod Dewi Sant oedd yn 2017/18, a oedd yn fyr o darged Cynllun Ffioedd a Mynediad 2017/18 o 4,050. Mae'r lleihad yn niferoedd rhan-amser yn gysylltiedig â lleihad dysgwyr aeddfed, a nodir isod. Mae'r Brifysgol yn parhau i ddatblygu a chynnig cyfleoedd dysgu hyblyg i ddysgwyr rhan-amser, yn enwedig y rhai sydd â chyfrifoldebau gofal, i ymwneud ag addysg uwch yn y gweithle yn ogystal ag yn y gymuned. Byddwn, felly, yn parhau i ganolbwyntio ein gweithgarwch yn y maes hwn wrth symud ymlaen, a bydd gwella perfformiad yn y maes hwn yn parhau'n darged i ni.

- Dysgwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg (40 credyd neu ragor);
  Yn ei Strategaeth Iaith Gymraeg, mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mewn ymateb, mae darparwyr addysg gynradd, bellach ac uwch yng Nghymru wedi datblygu a gweithredu ethos cryfach i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg. Ym mis Gorffennaf 2018, rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod[4]  y cyrhaeddwyd targed nifer y dysgwyr a oedd yn astudio o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg, er na wnaed hynny yn achos y dysgwyr a oedd yn astudio o leiaf 40 credyd. Adlewyrcha hyn berfformiad diweddaraf y Brifysgol. Yn 2017/18, roedd 418 o ddysgwyr Y Drindod Dewi Sant yn astudio o leiaf 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg, o'u cymharu â tharged o 850 ar y Cynllun Ffioedd a Mynediad. I'r gwrthwyneb, roedd 2,080 o ddysgwyr Y Drindod Dewi Sant yn astudio o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg, mymryn yn llai na tharged ein Cynllun Ffioedd a Mynediad o 2,080. Effeithiwyd ar hyn yn bennaf gan leihad yn niferoedd dysgwyr hyfforddiant addysgu llai o gyrsiau Cymraeg a ddarparwyd ar ffurf unedau bach, er bod 176 o ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg wedi eu darparu. Mae'r Brifysgol yn rhannu lleoliad â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan weithio'n agos ar gynllunio ac ymgysylltu. Mae Cynllun Academaidd y  Coleg yn cynnwys ymrwymiadau a mesurau i sicrhau y darperir darpariaeth academaidd mewn cynifer o ddisgyblaethau ag y bo modd, gyda chynifer o ddysgwyr ag y bo modd, gan elwa o ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Anogir a chefnogir yr ymrwymiadau hyn trwy ddarparu grantiau a dargedwyd, arian prosiectau, swyddogion cymorth ac ysgoloriaethau. Byddwn, felly, yn parhau i ganolbwyntio ein gweithgarwch yn y maes hwn wrth symud ymlaen, a bydd gwella perfformiad yn y maes hwn yn parhau'n darged i ni.

[2] Adran Addysg Lloegr, 28 Mehefin 2018: School workforce in England
[3] HESA: Higher Education Student Statistics: UK, 2017-18
[4] Llywodraeth Cymru Welsh language in higher education institutions

- Methwyd o drwch blewyn â chyrraedd ein targed ynghylch y rhai sy'n gadael y Brifysgol heb gwblhau eu cyrsiau. Yng Nghynllun Ffioedd a Mynediad 2017/18, cynhwyswyd targed parhad ar gyfer israddedigion amser llawn ac israddedigion rhan-amser. Methwyd o drwch blewyn ein targed amser llawn – nid oedd 12.3% o'n hisraddedigion mewn addysg uwch bellach yn dilyn eu blwyddyn mynediad. 12.0% oedd ein targed a byddem wedi ei gyrraedd pe bai saith o ddysgwyr yn llai wedi gadael addysg uwch. O ran ein dysgwyr rhan-amser, gadawodd 20.7% o'n dysgwyr addysg uwch, o'u cymharu â tharged o 20.0% Byddem wedi cyrraedd ein targed pe bai tri o ddysgwyr yn llai wedi gadael addysg uwch. Byddwn yn parhau i ddarparu dulliau cymorth arloesol i ddiwallu anghenion a helpu dysgwyr i barhau ar eu rhaglenni astudio hyd y gallent. Bydd y meysydd hyn, felly, yn parhau'n rhan o dargedau parhaus.
- Ni wnaethom fodloni ein targed i annog rhagor o ddysgwyr o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf i gymryd rhan mewn cyfleoedd astudio dramor. Yn 2017/18 cwympodd perfformiad yn fyr o darged o 9, a chyrraedd 1, er ni berfformio'n dda yn y maes hwn yn flaenorol. Mae hon yn broblem sy'n effeithio ar y sector yn gyffredinol: yn 2017/18, roedd canran y dysgwyr yn Sefydliadau Addysg Uwch Cymru a ddilynodd brofiadau astudio, gwaith a gwirfoddoli dramor o ddau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn llai nag 1%. Yn Y Drindod Dewi Sant, roedd hyn oddeutu 0.1%. Mae rhesymau economaidd a rhesymau cydbwysedd astudio-bywyd sy'n effeithio ar berfformiad yn y maes hwn. Gall gwleidyddiaeth a bygythiadau byd-eang wneud rhai yn llai awyddus, ond yn yr un modd, efallai na fydd dysgwyr wedi sylweddoli gwerth posibl astudio dramor. Mae symudedd myfyrwyr yn fesur cenedlaethol ar gyfer CCAUC yn faes y byddwn yn canolbwyntio arno o ran sicrhau y cofnodir gweithgarwch cymwys a gyflawnir gan ddysgwyr ar ein systemau, yn ogystal â datblygu a hyrwyddo cyfleoedd. Fodd bynnag byddai canolbwyntio gwaith cynllunio Ffioedd a Mynediad ar agwedd benodol ar brofiad carfan lai o faint o ddysgwyr yn cyfyngu ar y cymorth y gallem ei ddarparu i grwpiau blaenoriaeth eraill.

# 6. Partneriaeth â Myfyrwyr

Yn unol â'n Siartr Myfyrwyr, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'i dysgwyr ac Undeb y Myfyrwyr i ddarparu profiad dysgu o ansawdd uchel. Ers dechrau cynllunio ffioedd a mynediad, rydym wedi archwilio nifer o fodelau ar gyfer sicrhau bod llais y myfyrwyr yn rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu cynlluniau a'r strategaethau buddsoddi cysylltiedig. Mae strategaethau ymgysylltiad a chynrychiolaeth myfyrwyr wedi ennill eu plwyf ar draws y Brifysgol a thrwy Undeb y Myfyrwyr, cynrychiolir dysgwyr ar Gyngor y Brifysgol (dau aelod) a'i Phwyllgor Adnoddau a Pherfformiad. Mae iddynt hefyd gynrychiolaeth ar y Senedd (y prif gorff academaidd) a'r mwyafrif o'i phwyllgorau gan gynnwys Pwyllgor Polisi Corfforaethol sy'n goruchwylio'r agweddau gweithredol ar gynllunio ffioedd a mynediad ar gyfer y Grŵp. Caiff aelod staff o Undeb y Myfyrwyr (fel arfer y Prif Weithredwr) fod gyda swyddogion sabothol mewn cyfarfodydd pwyllgorau gan ddarparu gwell parhad o ran dull a chefnogi'r swyddogion sabothol i wneud cyfraniadau gwybodus a dylanwadol i benderfyniadau.

Trwy'r Adran Profiadau Myfyrwyr a chan weithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, mae'r Brifysgol wedi gwneud ymdrechion sylweddol i sicrhau bod cynifer ag y bo modd yn cymryd rhan mewn arolygon bodlonrwydd myfyrwyr, ac i sicrhau y defnyddir canlyniadau'r arolygon hyn yn systematig i dargedu meysydd i'w gwella a buddsoddi ynddynt. Defnyddir dull tebyg i ddulliau eraill o gasglu adborth, gyda rhagor o ffocws ar ymgysylltu â dysgwyr yn unigol. Cyflawnir hyn trwy 'bythefnosau adborth' bob tymor pryd mae cyfleoedd i roi adborth sydd wedi eu teilwra'n bersonol, ynghyd â rhyngweithio ag amrywiaeth o aelodau staff y Brifysgol, yn rhoi rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau, yn ogystal ag ymdeimlad o berchenogaeth ar gyfarwyddo gwaith y Brifysgol. Defnyddir data arolygon hefyd i dargedu meysydd a grwpiau ffocws i archwilio materion ymhellach a chynllunio atebion gyda dysgwyr. Er enghraifft yn hydref 2018, cynhaliwyd arolwg adnoddau a chyfleusterau mawr ymhlith dysgwyr i ddeall materion yn fanwl a galluogi cynlluniau gweithredu wedi eu ffocysau ar lefel leol. Ymatebodd 781 o ddysgwyr i'r arolwg hwn. Gyda chytundeb Undeb y Myfyrwyr, ac yng ngoleuni dosbarthiad daearyddol eang ein campysau, mae datblygiad ein Cynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2020/21 wedi canolbwyntio ar yr adborth a gafwyd trwy'r dulliau hyn yn ogystal â grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr myfyrwyr etholedig a swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr. Mae hyn wedi cynnwys ymgynghoriad penodol ar y Cynllun Ffioedd a Mynediad a chyfarfodydd â dysgwyr yn Birmingham, Caerfyrddin a Llambed.

I lywio'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn, rydym wedi casglu gwybodaeth gan ein partneriaid addysg bellach, yn bennaf trwy ddeialogau â'r uwch swyddogion a thrwy'r gwahanol ddulliau ar gyfer llais y dysgwyr, gan gynnwys arolygon, sy'n gweithredu oddi mewn i sefydliadau unigol. Mae gwaith yr Arweinwyr Timau Partneriaeth yn darparu ffynhonnell ddi-baid o wybodaeth am brofiadau dysgwyr mewn sefydliadau partner ar gyfer y Brifysgol ac, o bosibl, am unrhyw rwystrau i gyfranogiad y mae dysgwyr yn eu hwynebu. Mae datblygu ein Cynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2019/20 wedi canolbwyntio ar yr adborth a gafwyd trwy'r dulliau hyn.

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi gwneud y datganiad canlynol i gefnogi'r Cynllun:

*'Hoffai Undeb y Myfyrwyr ganmol y Brifysgol ar ei dull o ddatblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn. Mae adborth o dan arweiniad myfyrwyr wedi bod wrth wraidd y gwaith o lunio'r cynllun hwn ac rydyn ni'n arbennig o gyffrous o weld canlyniadau ffocws uwch ar ddysgwyr rhan-amser. Hoffem hefyd longyfarch y Brifysgol am roi'r fath bwyslais ar Iechyd Meddwl Myfyrwyr, sy'n her gynyddol sylweddol a chynyddol y mae'r myfyriwr modern yn ei hwynebu. Mae'r cynllun hwn yn dystiolaeth o'r ymrwymiad parhaus i bartneriaethau yn Y Drindod Dewi Sant, ymgynghorwyd yn llawn â ni yn rhan o'r broses hon ac rydym yn falch o gymeradwyo'r ddogfen hon.'*

Rob Simkins, Llywydd Grŵp UM Y Drindod Dewi Sant

# 7. Grwpiau y nodwyd eu bod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch

I lywio'r targedau a bennir yn ein Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020/21, rydym wedi cynnal dadansoddiad ar y data cofrestru, cadw a chyflawni dysgwyr ar gyfer Grŵp Y Drindod Dewi Sant ac ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn fwy cyffredinol. Mae'r dadansoddiad hwn wedi cadarnhau bod pum grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yng Ngrŵp Y Drindod Dewi Sant ac sydd hefyd yn ffocws blaenoriaethau cenedlaethol a sectoraidd. Ceisia ein targedau gynyddu cyfranogiad dysgwyr yn y grwpiau hyn trwy nodi rhwystrau i lwyddiant, a pharhau i ddatblygu a darparu cymorth a dargedir. Y buddsoddiad i gefnogi'r gweithgarwch hwn (cyfle cyfartal) yw £11,026,898. Darperir targedau yn Adran 8 ac yn Nhabl G (ar ddiwedd y Cynllun hwn).

### 7.1 Dysgwyr rhan-amser

Mae cyfran sylweddol o ddysgwyr israddedig Y Drindod Dewi Sant yn astudio'n rhan-amser. Recriwtiodd Grŵp Y Drindod Dewi Sant ganran uwch o ddysgwyr israddedig rhan-amser na'r DU yn gyffredinol, ond cyfran lai na Chymru yn gyffredinol yn 2017/18:

| Cyfran y dysgwyr sy'n rhan-amser | | |
|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 |
| Y Drindod Dewi Sant | 29.1% | 24.2% |
| Cymru | 27.4% | 25.8% |
| Y DU | 22.9% | 21.1% |

Mae nifer y dysgwyr rhan-amser wedi gostwng yn raddol dros y cyfnod rhwng 2013/14 a 2017/18, oddi mewn i Grŵp Y Drindod Dewi Sant ac ar draws y sector yng Nghymru. I gydnabod bod cynyddu astudio rhan-amser yn parhau'n un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'i fod hefyd yn rhan o Fesurau Cymru CCAUC ar gyfer Perfformiad Addysg Uwch, mae recriwtio dysgwyr rhan-amser, a'u cefnogi i gyflawni eu potensial llawn, yn sylfaenol i'n Cenhadaeth, a byddwn yn parhau i ddarparu cymorth â ffocws ar eu cyfer trwy'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn.

### 7.2 Dysgwyr o ardaloedd difreintiedig

Daw'r gyfran o ddysgwyr israddedig amser llawn o ddata ar ddata ardaloedd isel eu cyfranogiad yn ogystal â data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Parhaodd hyn yn uwch na chyfartaledd y DU yn 2017/18, ond ychydig yn is na chyfartaledd Cymru.

| Cyfran o ddysgwyr israddedig o ardaloedd isel eu cyfranogiad yn 2017/18[5] | | |
|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 |
| Y Drindod Dewi Sant | 12.9% | 12.3% |
| Cymru | 14.3% | 14.4% |
| Y DU | 11.8% | 12.0% |

Gall cyfran yr holl israddedigion (rhan-amser ac amser llawn) o ardaloedd isel eu cyfranogiad fod yn amodol ar newidiadau o flwyddyn i flwyddyn; fodd bynnag, mae lefelau wedi parhau'n lled sefydlog dros y tair blynedd ddiwethaf o 39.2% yn 2015/16 i 39.3% yn 2017/18.

Cyfran dysgwyr Cymru sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig (h.y. dau gwintel isaf Haen Is Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) yw 39.1%, sef cynnydd o 37.2% yn 2016/17. Mae'r modd y diffiniwyd y grŵp hwn o ddysgwyr wedi newid ar ôl 2016/17, felly nid oes gwybodaeth hanesyddol ar gael.

Cydnabyddwn fod dysgwyr o ardaloedd difreintiedig / cyfranogiad isel yng Nghymru a'r DU yn parhau heb gynrychiolaeth ddigonol yn addysg uwch Cymru yn ei chyfanrwydd. Ceisia ein gweithgareddau godi dyheadau ar gyfer y dysgwyr hyn ac, yn anad dim, canfod rhwystrau a heriau'n gynnar er mwyn gweithredu dulliau cymorth priodol.

Mae'r grŵp hwn sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a nodwyd yn y Strategaeth Ymgyrraedd yn Ehangach, oedolion o'r cwintel perthnasol ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (gweler 7.7 isod), sy'n sicrhau ffocws cryf ar ein gweithgarwch i ymgysylltu â darpar ddysgwyr sy'n byw oddi mewn i ardaloedd cod post a nodwyd, a chodi eu dyheadau. Mae'r grŵp hefyd yn parhau'n un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ac yn rhan o Fesurau Cymru CCAUC ar gyfer Perfformiad Addysg Uwch.

### 7.3 Dysgwyr sy'n datgan anabledd

Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddileu rhwystrau canfyddedig i addysg uwch ar gyfer dysgwyr y mae arnynt angen cymorth ychwanegol ac rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn darparu'r offer i alluogi dysgwyr o'r fath i gyrraedd eu potensial llawn. Mae hwn yn faes cryfder allweddol i Grŵp Y Drindod Dewi Sant, a thros gyfnod o dair blynedd rhwng 2015/16 a 2017/18, rydym wedi cynyddu canran y dysgwyr gradd gyntaf amser llawn sy'n derbyn y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl i lefelau sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DU:

| Cyfran y dysgwyr israddedig amser llawn sy'n derbyn DSA | | |
|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 |
| Y Drindod Dewi Sant | 15.5% | 14.3% |
| Cymru | 8.3% | 7.7% |
| Y DU | 6.6% | 6.6% |

[5] Tablau T1b a T2a yn Nangosyddion Perfformiad y DU).

Fodd bynnag, mae cyfraddau dysgwyr rhan-amser Y Drindod Dewi Sant sydd ag anabledd hysbys yn is na'r cyfraddau sydd i'w gweld yng Nghymru a'r DU yn gyffredinol. Byddwn, felly, yn canolbwyntio buddsoddiad ein Cynllun Ffioedd a Mynediad ar sicrhau bod dysgwyr sydd ag anableddau'n goresgyn unrhyw rwystrau canfyddedig rhag addysg uwch..

| Cyfran y dysgwyr rhan-amser sydd ag anabledd hysbys | | |
|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | 11.4% | 11.7% |
| Cymru | 13.2% | 14.3% |
| Y DU | 14.5% | 15.6% |

Yn ogystal, mae cyfran israddedigion Y Drindod Dewi Sant sydd ag anhwylder iechyd meddwl sydd wedi ei ddatgan yn is na'r cyfraddau yng Nghymru a'r DU yn gyffredinol.

| Cyfraddau israddedig sy'n datgan anabledd, ac sy'n datgelu mai iechyd meddwl yw hwn | | |
|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | 13.1% | 15.7% |
| Cymru | 19.4% | 21.7% |
| Y DU | 21.2% | 24.7% |

Cydnabyddwn y derbynnir ar draws y sector fod dysgwyr anabl yn grŵp anodd ei gyrraedd, ac mae gan y cyhoedd bryderon cynyddol am iechyd meddwl myfyrwyr a'r strategaethau cymorth a ddarperir gan sefydliadau addysg uwch. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd ymatebol a chefnogol i ddiwallu anghenion dysgwyr sy'n datgelu anabledd iechyd meddwl, gan eu galluogi i gwblhau eu hastudiaethau yn llwyddiannus yn parhau i fod yn elfen bwysig o'r Cynllun Ffioedd a Mynediad Hwn.

### 7.4 Dysgwyr o blith Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME)

Ar hyn o bryd rydym yn cofrestru lefelau uwch o ddysgwyr israddedig amser llawn o blith pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) o'r DU a'r UE na'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DU. Newidiodd amrywiaeth ethnig ein dysgwyr yn sylweddol yn 2017/18, a hynny'n bennaf oherwydd y twf mewn dysgwyr BAME sy'n astudio ar ein campws yn Llundain. Cydnabyddwn fod cyfleoedd pellach i ddeall yr heriau amrywiol y mae'r grŵp hwn yn eu hwynebu ac i ddarparu cymorth priodol wedi ei dargedu.

| Proportion of undergraduates that are BAME | | |
|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 |
| UWTSD | 10.7% | 20.6% |
| Wales | 8.6% | 9.7% |
| UK | 19.6% | 20.3% |

O ddadansoddi'r data cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr gradd gyntaf amser llawn o'r DU a'r UE, gwelir yn glir fod bylchau cyrhaeddiad yn bodoli ar gyfer dysgwyr BAME ar draws y sector, gan gynnwys yn Y Drindod Dewi Sant. Mae'r Brifysgol yn gweithio'n galed i ddarparu gwell cyfleoedd i ddysgwyr BAME astudio, gwneud cynnydd a chyflawni.

Mae canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS) yn dangos bod cyfradd bodlonrwydd gyffredinol dysgwyr Du ac Asiaidd yn is na chyfartaledd y sector. Bydd ffocws ein targedau ar gyfer dysgwyr BAME, felly, ar gynyddu lefelau bodlonrwydd yn hytrach na niferoedd dysgwyr.

| Cyfraddau bodlonrwydd NSS yn Y Drindod Dewi Sant | | | Cyfartaledd NSS ar draws y sector | |
|---|---|---|---|---|
| | Du | Asiaidd | Du | Asiaidd |
| Cyffredinol | 81.48% | 79.17 | 82.07% | 82.6% |

### 7.5 Dysgwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yn 2017/18, darparodd Grŵp Y Drindod Dewi Sant 5 neu ragor o gredydau trwy gyfwng y Gymraeg i 2,012 o ddysgwyr, a 40 neu ragor o gredydau i 418 o ddysgwyr, darpariaeth a oedd, yn eu tro, yn 37.7% a 16.4% o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Mae nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg wedi amrywio, fodd bynnag. Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i annog a chefnogi cyfranogiad dysgwyr newydd a phresennol i ddilyn rhan o'u rhaglen astudio neu'r cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hon yn rhan allweddol o'n hymrwymiad strategol i ddiwylliant Cymru yn fwy cyffredinol. Mae'r ymrwymiad hwn yn ategu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, Mesurau Cenedlaethol CCAUC ar gyfer Perfformiad Addysg Uwch a gweledigaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

| | 5 neu ragor o gredydau | | 40 neu ragor o gredydau | |
|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2016/17 | 2017/18 |
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | 2,380 | 2,010 | 465 | 420 |
| SAUau Cymru | 5,520 | 5,175 | 2,285 | 2,395 |
| SAUau a SABau Cymru | 5,560 | 5,365 | 2,325 | 2,550 |

### 7.6 Grwpiau eraill sy'n anodd eu cyrraedd

Yn ogystal â'r rheini a nodwyd uchod, cydnabyddwn hefyd grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch a'r rhai y mae CCAUC wedi nodi eu bod yn Grwpiau Blaenoriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach gan gynnwys:

- Gwrywod ifanc o ardaloedd isel eu cyfranogiad
- Y rhai sy'n byw ar aelwydydd di-waith
- Y rhai sy'n cael tlodi gwaith
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Y rhai sy'n derbyn lwfans cynhaliaeth addysg
- Pobl sy'n gynnwys ar gyfer prydau ysgol am ddim
- Y bobl gyntaf i fynd i Addysg Uwch yn y teulu
- Pobl sy'n dod o gefndir gofal
- Pobl sydd wedi eu dieithrio o'u teuluoedd
- Rhai cymunedau lleiafrifoedd ethnig sydd wedi eu tangynrychioli mewn addysg uwch
- Rhai pobl sydd â nodweddion gwarchodedig
- Cyn-droseddwyr

Grwpiau Blaenoriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach

- Gofalwyr yng Nghymru
- Plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru
- Y rhai sy'n gadael gofal yng Nghymru
- Pobl sy'n byw yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru sydd dros 16 oed; ac oedolion heb gymwysterau Lefel 4

Ni chysylltir camau penodol i hyrwyddo cyfleoedd addysg uwch a chyfle cyfartal i'r grwpiau hyn â thargedau penodol yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn. Fodd bynnag, bydd ein gweithgarwch ehangu mynediad ac Ymgyrraedd yn Ehangach, a chyfleoedd ymgysylltu eraill, yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd hyn, a byddwn yn parhau i sicrhau bod ein darpariaeth gwasanaethau myfyrwyr yn diwallu anghenion dysgwyr unigol yn y grwpiau hyn.

**7.7 Ymgyrraedd yn Ehangach**

A hithau'n sefydliad aml gampws, mae'r Drindod Dewi Sant wedi yn hollol ymrwymedig i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r rhanbarth; mae'r un mor ymrwymedig i hyrwyddo dilyniant o addysg bellach i addysg uwch. Rydym yn bartner ym Mhartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru (SWWRWP), sy'n anelu at gynyddu'r cyfranogiad mewn addysg uwch gan bobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a chymunedau yn ne-orllewin Cymru gyda ffocws ar bobl sy'n byw yn 40% isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, a gofalwyr. Mae partneriaid yn gweithio gyda disgyblion ysgol, teuluoedd ac oedolion yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, yn ogystal â phobl ifanc a gofalwyr sydd â phrofiad o ofal ar draws y rhanbarth.

Mae ein gwaith Ymgyrraedd yn Ehangach ar hyn o bryd wedi ei strwythuro o gwmpas fframwaith gweithgarwch strategol sy'n cydblethu'n ddi-dor â'r gweithgarwch yn Strategaeth Ranbarthol SWWRWP.

Mae'r strategaeth yn nodi ymrwymiad y Bartneriaeth i ehangu mynediad yn ne-orllewin Cymru yng nghyd-destun sefyllfa economaidd a chymdeithasol y rhanbarth ac yn esbonio cenhadaeth a diben cyffredinol y Bartneriaeth. Amlinella ymateb strategol y Bartneriaeth i anghenion a blaenoriaethau rhanbarthol ehangu mynediad a sut mae'n cyd-fynd â chynlluniau a datblygiad rhanbarthol. Nod y Bartneriaeth yw darparu rhaglen gweithgarwch ac ymgysylltu flaengar, barhaus i garfannau a dargedwyd ar draws de-orllewin Cymru sy'n creu llwybrau i addysg uwch Lefel 4.

I gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth, mae gan y Brifysgol Gynllun sy'n adlewyrchu ei chryfderau'n brifysgol ehangu mynediad, sy'n seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn ac sy'n cyd-fynd â strategaeth SWWRWP. Caiff yr holl weithgarwch ei leoli yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae gan y Brifysgol gampysau yng Nghaerfyrddin ac Abertawe ond mae cwmpas y Cynllun yn ymestyn dros y rhanbarth gydag ymrwymiad i ddarparu gweithgarwch newydd. Adeg ysgrifennu, mae cynllun dwy flynedd (2018-2020) wedi ei sefydlu, sy'n nodi ein dull o symud y gweithgarwch hwn ymlaen i'r dyfodol.

Y bwriad yw darparu rhaglen o ymyriadau a dargedwyd yn agos gyda grwpiau targed penodol. O ganlyniad i leoliadau rhanbarthol, mae prif ffocws y Cynllun ar y canlynol:

(i) Dysgwyr AB Lefel 3 sy'n dilyn llwybrau galwedigaethol;
(ii) Oedolion o gwintelau perthnasol Malc
(iii) Disgyblion 6ed dosbarth yn y nifer gyfyngedig o ysgolion targed sydd â darpariaeth chweched dosbarth.

Mae Oedolion o gwintelau perthnasol Malc yn grŵp y nodwyd nad oedd ganddynt gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch (gweler 7.2 uchod), sy'n sicrhau ffocws, ac ymrwymiad i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd cod post a dargedwyd

Cynllunnir yr holl weithgareddau mewn cydweithrediad â'r rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod yr arlwy'n berthnasol ac wedi ei thargedu i hwyluso'r grwpiau anodd eu cyrraedd yn y codau post perthnasol sy'n manteisio arnynt. Mae'r ymyriadau wedi eu cynllunio i adlewyrchu anghenion y gwahanol grwpiau a bod yn briodol i'r oedran, gan ymgorffori cyrhaeddiad, codi dyheadau, mentora a gwybodaeth, cyngor ac arweiniad o ansawdd.

# 8. Amcanion, Gweithgareddau a Thargedau

Cysyllta amcanion ein Cynllun Ffioedd a Mynediad â phedair blaenoriaeth Cynllun Strategol 2017-22 ein sefydliad, gan sicrhau bod yr amcanion, y data a'r targedau'n gyson. Y pedair blaenoriaeth, a nodir yn yr adran hon, yw:

- 8.1: Rhoi dysgwyr yn gyntaf
- 8.2: Rhagoriaeth mewn addysgu, ysgolheictod ac ymchwil cymhwysol
- 8.3: Creu cyfleoedd trwy bartneriaethau
- 8.4: Prifysgol i Gymru

O dan bob blaenoriaeth, rydym wedi darparu'r amcanion, targedau a'r gweithgareddau cysylltiedig er mwyn (i) hyrwyddo cyfle cyfartal a (ii) hyrwyddo addysg uwch. Bydd nifer o weithgareddau'n cyfrannu i ddarparu un amcan neu ragor.

Cysylltir amcanion, targedau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal â'r grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Disgrifir y rhain yn Adran 7.

Darperir rhestr gyflawn o dargedau yn Nhabl G, ar ddiwedd y Cynllun hwn.

## CC 1

**Blaenoriaeth Strategol Y Drindod Dewi Sant: Rhoi Dysgwyr yn Gyntaf**

**Amcan 1: Hyrwyddo a diogelu mynediad teg i addysg uwch gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol**

**Targedau 8, 9**

**Cyfle Cyfartal – Buddsoddiad: £1,837,816.30**

Mae hyrwyddo a diogelu mynediad teg yn golygu rhwystrau posibl rhag cymryd rhan a chynnydd, a cheisio sicrhau bod y Brifysgol yn darparu amgylchedd cefnogol a chynhwysol lle gallant gymryd rhan.

Bydd ein cynlluniau ar gyfer darparu ac ymgysylltu'n cynnwys:

- Parhau i ddarparu pecyn bwrsarïau ac ysgoloriaethau cystadleuol sy'n darparu cymorth wedi ei dargedu ar gyfer dysgwyr mewn grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan hyrwyddo addysg uwch yn ddewis bywyd deniadol a hyfyw posibl trwy gyfrwng y Gymraeg
- Yn cyhoeddi gwell deunyddiau arwain i ymateb i anghenion darpar ddysgwr, dysgwr ac anghenion cymorth gan sicrhau bod grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol wedi eu cynnwys ac wedi eu hyrwyddo, a bod y wybodaeth, yn berthnasol a defnyddiol
- Cynyddu atyniad dewisiadau rhaglenni cyfrwng Cymraeg, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hwyluso mynediad i ddysgwyr i'r cyfleoedd hyfforddi a ddarperir trwy'r Coleg Cymraeg ynghyd ag annog pobl i gymryd rhan mewn cyfleoedd a ddarperir gan y Coleg, er enghraifft ysgoloriaethau'r Brifysgol a'r Coleg Cymraeg a bwrsarïau a digwyddiadau sydd wedi eu hanelu at ddarparu diwylliant cyfrwng Cymraeg cryf yn y Brifysgol
- Datblygu a hyrwyddo cysylltiadau â S4C a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg, a darparu'r cyfleoedd dysgu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg gyda phrofiad gwaith cysylltiedig
- Cryfhau a gwella profiadau dysgu'r rhai sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn y Brifysgol trwy waith a dargedwyd adrannau ar draws campysau'r Brifysgol, gan ddarparu llenyddiaeth yn Gymraeg, darparu bwrsarïau yn rhan o becyn bwrsarïau cynhwysfawr.
- Darparu sesiynau gyrfaoedd cyfrwng Cymraeg ac adnoddau dwyieithog ar y we sydd wedi eu teilwra ar gyfer hyrwyddo dyheadau cyflogadwyedd a dewis
- Darparu digwyddiadau cyfeiriadu iaith Gymraeg i ddysgwyr newydd, yn ogystal â digwyddiadau prif ffrwd, er mwyn hyrwyddo'r diwylliant cyfrwng Cymraeg a'r cydlynrwydd grŵp ac amgylchedd dysgu'r Brifysgol
- Darparu a hyrwyddo menter y Big White Wall i ddarparu cymorth ac arweiniad 24/7 i ddysgwyr i wella eu hiechyd meddwl
- Darparu gwell strwythurau a dulliau cymorth cynaliadwy i fyfyrwyr sydd ag afiechyd meddwl trwy gyfrwng y Gymraeg, i bob myfyriwr yng Nghymru nad y Gymraeg yw eu hiaith gyntaf na'u dewis iaith, ddatblygiad, yn dilyn menter gydweithredol rhwng prifysgolion eraill yng Nghymru, colegau addysg bellach, Grŵp Llandrillo Menai, Meddwl.org, Rhaglen Seicoleg Glinigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Gogledd Cymru, a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- Hyrwyddo cymuned sefydliadol gefnogol, gan weithio gyda'r staff a'r myfyrwyr ar draws addysg uwch a phellach i wella llesiant pobl ac atal eithrio cymdeithasol, yn dilyn menter gydweithredol rhwng prifysgolion eraill yng Nghymru a cholegau addysg bellach Cymru
- Darparu arweiniad a chymorth wedi eu targedu i ddysgwyr y mae angen cymorth dysgu ychwanegol ar eu cyfer, megis dyfarniadau i gynorthwyo dysgwyr anabl gyda chostau asesu dadansoddol, ar gyfer costau gofal plant ac astudio rhan-amser
- Darparu sesiynau cofrestru penodol ar gyfer ymgeiswyr rhan-amser lle mae gwybodaeth am gyrsiau, cymorth myfyrwyr a chyngor ariannol am ffioedd ac mae bwrsarïau ar gael
- Rhoi cymorth i fyfyrwyr sydd ag anawsterau megis dyslecsia, dyspracsia, ADD, Asperger trwy gwblhau ceisiadau DSA, tiwtora fesul un, cymorth a chyngor priodol ar gonsesiynau arholi. Caiff help ei gynnig mewn llawer o feysydd, megis gwella aseiniadau, adolygu arholiadau effeithiol, trefnu amser, eich hun a gwaith
- Darparu cymorth iechyd meddwl fesul un i ragor o fyfyrwyr
- Darparu gwasanaeth mentora i fyfyrwyr anabl trwy'r swyddfa Gwasanaethau Myfyrwyr i gwrdd â mentor yn rheolaidd i siarad am eu profiadau, eu cynnydd a ffyrdd o oresgyn heriau a gweithio strategaethau i ymdopi ag astudiaethau'n fwy effeithiol.

## CC 2

**Blaenoriaeth Strategol Y Drindod Dewi Sant: Rhoi Dysgwyr yn Gyntaf**

**Amcan 2: Denu darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol**

**Targedau 1, 4, 5, 6, 11, 12**

**Cyfle Cyfartal – Buddsoddiad: £5,513,448.90**

Mae denu darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn golygu hyrwyddo addysg uwch yn ddewis deniadol a hyfyw lle efallai nad oedd yn ymddangos yn bosibl yn flaenorol.

Bydd ein cynlluniau ar gyfer darparu ac ymgysylltu'n cynnwys:

- Darparu digwyddiadau ymgyfarwyddo cyfrwng Cymraeg penodol i ddysgwyr newydd, wedi eu darparu yn ogystal â digwyddiadau prif ffrwd, i hyrwyddo'r diwylliant cyfrwng Cymraeg a'r cydlynrwydd grŵp ac amgylchedd dysgu'r Brifysgol
- Darparu modylau i ddysgwyr mewn ysgolion, trwy'r Gyfadran Gysylltiol, mewn cyrsiau preswyl ac adeiladu cysylltiadau cryf ag ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg i annog dysgwyr i ystyried a pharatoi ar gyfer astudiaethau addysg bellach ac uwch cyfrwng Cymraeg
- Hwyluso ysgolion cynradd ac uwchradd o ardaloedd a chefndiroedd difreintiedig i ymweld â'n campysau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n anelu at godi eu dyheadau ynghylch mynd i mewn i addysg uwch
- Darparu gweithgarwch trwy Yr Athrofa sy'n targedu cynnydd yn niferoedd y darpar athrawon sy'n darparu dysgu ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a hyrwyddo addysgu cyfrwng Cymraeg yn opsiwn deniadol1
- Gan gydweithio'n agos â phartneriaid a grwpiau cymunedol i adeiladu hyder, codi dyheadau a chynyddu cyfranogiad darpar ddysgwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau anodd eu cyrraedd yn ddaearyddol ac o ran eu hincwm, ardaloedd Cyfranogiad Isel y DU a MALlC40, trwy ymweliadau yn ôl ac ymlaen a phrosiectau partneriaeth
- Darparu llwybrau cymorth a chynnydd i ddysgwyr o ardaloedd a chefndiroedd difreintiedig, dysgwyr o oedolion heb gymwysterau lefel 4, gofalwyr, y rhai sy'n gadael gofal a dysgwyr ifanc ar Lefel 2, trwy hyrwyddo cyfleoedd o addysg bellach i addysg uwch, gan ddarparu cymorth sgiliau a gwaith mentora cyfoedion, trwy becynnau ariannol, cyfleoedd dysgu ar-lein gan gynnwys astudiaethau rhan-amser, ar-lein a darpariaeth mewn canolfannau allgymorth
- Adolygu, adnewyddu ac ail-ddylunio ein deunyddiau arweiniad, sydd wedi eu targedu, ein cyhoeddiadau a'n presenoldeb ar-lein i ymateb i ddarpar ddysgwyr, ac ymgynghorwyr dysgwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan sicrhau bod y wybodaeth ar gael iddynt, ei bod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol
- Darparu cymorth ac ysgoloriaethau sydd wedi eu targedu i fod o fudd i ddysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys dysgwyr rhan-amser ac aeddfed, a dysgwyr o ardaloedd Cyfranogiad Isel y DU a MALlC40, i gynorthwyo gyda mynd i Addysg Uwch
- Hyrwyddo ein harweiniad a'n cymorth sydd wedi eu targedu i ddysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys dysgwyr rhan-amser ac anabl, megis dyfarniadau i gynorthwyo dysgwyr anabl gyda chostau asesu dadansoddol, ar gyfer costau gofal plant ac astudiaethau rhan-amser
- Digwyddiadau codi ymwybyddiaeth mewn lleoliadau strategol allweddol i godi dyheadau ac annog cyfranogiad darpar ddysgwyr o gymunedau BAME, ardaloedd Cyfranogiad Isel y DU a MALlC40, i ddiwallu anghenion penodol ac anghenion o ran bylchau addysgiadol wrth eu paratoi ar gyfer cyflogaeth
- Darparu llwybrau at weithgareddau AU ar gyfer gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr o MALlC40, er mwyn cynnig gweithgareddau dysgu a rhai codi dyheadau ar gyfer plant (yng nghyfnodau 2, 3 a 4), pobl ifanc ac oedolion sydd wedi eu targedu
- Blaenoriaethu a hyrwyddo cyfleoedd dysgu rhan-amser, gan gynnwys cymwysterau proffesiynol a phrentisiaethau gradd ar sail ddysgu hyblyg yn ogystal â Thystysgrifau Addysg Uwch a rhaglenni ar-lein a dysgu o bell
- Cynyddu nifer y rhaglenni llwybr cyflym a'r rhaglenni a ddarperir y tu allan i oriau addysgu arferol, gyda'r nos ac ar y penwythnos, y tu allan i'r flwyddyn academaidd, a/neu ddefnyddio dulliau addysgu cywasgedig neu gyfunol i gefnogi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, gan gynnwys myfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr aeddfed a myfyrwyr o ardaloedd Cyfranogiad Isel y DU a MALlC40 sy'n defnyddio canolfannau allgymorth
- Cynyddu'r rhaglenni arloesol a ddarperir, gan gynnwys rhaglen Tystysgrif Addysg Uwch (TystAU) mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle, er mwyn datblygu perthnasoedd agosach â chymunedau penodol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghaerdydd. Birmingham, De Cymru a Llundain
- Darparu canolfannau asesu i sicrhau bod modd i'r holl ddarpar fyfyrwyr fanteisio ar aseswyr sydd â gwybodaeth gynhwysfawr a'r rhwydwaith cymorth a'r rhaglenni a gynigiwn
- Ymgysylltu â'r cymunedau a'r cymunedau ehangach lle rydym wedi ein lleoli, yn ogystal ag ardaloedd o amddifadedd trwy brosiectau megis Diwrnod Hwyl y Ffenics yn Townhill yn Abertawe, i hyrwyddo amlygrwydd y Brifysgol, y cyfleoedd dysgu mae'n eu darparu a'u manteision posibl o ran cyflogadwyedd a'r sgiliau a ddefnyddir
- Datblygu a hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Grŵp er mwyn sicrhau y gall dysgwyr addysg bellach, sy'n dymuno dilyn llwybrau cyfrwng Cymraeg, ddilyn rhaglenni sy'n symud i astudiaethau addysg uwch a gwella cyfleoedd cyflogaeth oddi mewn i Gymru
- Datblygu, hyrwyddo a gweithredu dau fodwl cyfrwng Cymraeg a ddyluniwyd i ddarparu sgiliau i'r gweithle ar gyfer dysgwyr oddi mewn i Grŵp Y Drindod Dewi Sant er mwyn gwella cyfleoedd cyflogaeth yng Nghymru
- Datblygu modylau cyfrwng Cymraeg newydd ym maes cynhyrchu digidol, Diwinyddiaeth a phortffolios Iechyd, Busnes a Thwristiaeth, i ehangu amrywiaeth y rhaglenni a gynigir a chryfhau'r opsiynau cyflogadwyedd
- Ymgysylltu'n fwy â chyflogwyr mewn sectorau penodol yn ne Cymru, sydd wedi eu hanelu'n benodol at ddysgwyr aeddfed rhan-amser mewn gwaith, sydd â lefelau uchel o brofiad ond sy'n gyfyngedig eu cymwysterau, sy'n gallu lleihau yn aml eu gallu i wneud cynnydd oddi mewn i'w dewis yrfaoedd
- Estyn gwasanaethau achredu i alluogi gyflogwyr i gael cydnabyddiaeth o ran lefel academaidd a gwerth credydau am yr hyfforddiant mewnol a ddarparant. Wedyn bydd modd i'r gweithwyr ddefnyddio'r hyfforddiant y maent wedi ei gwblhau yn y gwaith yn rhan o radd gyda'r Brifysgol. Mae hyn yn dod ag addysg y brifysgol yn nes at fyfyrwyr aeddfed, rhan-amser, aeddfed yn y gwaith.

## CC 3

**Blaenoriaeth Strategol Y Drindod Dewi Sant: Rhoi Dysgwyr yn Gyntaf**

**Amcan 3: Cefnogi a chynyddu dilyniant, cwblhad pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a'r niferoedd a gedwir o'r grwpiau hyn**

**Targedau: 2, 3, 7, 10**

**Cyfle Cyfartal – Buddsoddiad: £3,675,633**

- Darparu a gwella gwasanaeth cyngor ariannol y Meddyg Arian i gefnogi dysgwyr, mae myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn arbennig, yn manteisio ar y gwasanaeth hwn
- Cefnogi dilyniant parhaus dysgwyr yng nghanolfannau dysgu Llundain a Birmingham trwy ddarparu sesiynau galw heibio, sgiliau TG a sesiynau arweiniad asesu, ffeiriau Llesiant, sesiynau cymorth gyda'r Llyfrgellydd Academaidd, cymorth gyda cheisiadau ariannu, atgyfeiriadau banc bwyd a chronfeydd cyni
- Gwella cyfraddau llwyddiant i ddysgwyr Du ac Asiaidd
- Darparu Ymgynghorydd Cymorth Anabledd i weithio gyda'r holl fyfyrwyr y mae ganddynt hawl i Lwfans i Fyfyrwyr Anabl er mwyn sicrhau eu bod yn cwblhau'r holl waith papur sydd ei angen, a hefyd bod modd iddynt fanteisio ar y cymorth arbenigol a gynigir (megis cymryd nodiadau neu diwtora fesul 1)
- Cefnogi myfyrwyr sydd â phresenoldeb isel i sicrhau eu bod yn bod yn parhau i ymroi i'w hastudiaethau, trwy waith partneriaeth agos rhwng myfyrwyr a thiwtoriaid yn ein canolfannau dysgu, i nodi rhwystrau rhag cymryd rhan a phroblemau ynghylch dilyniant
- Darparu menter SoCom wythnosol ar bob prif gampws (grŵp cymorth i'r myfyrwyr y mae angen yn benodol iddynt wella eu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu)
- Prosiect GO Wales (Cyflawni trwy Brofiad Gwaith) sy'n targedu grwpiau o fyfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol
- Darparu rhaglenni DPP rhan-amser i gynorthwywyr addysgu a'r rhai sy'n dod o grwpiau sydd dan anfantais, i'w galluogi i symud yn eu blaen i gymwysterau lefel uwch
- Darparu cymorth ariannol i ofalwyr, er enghraifft bwrsari'r Oedolyn Ifanc o Ofalwr
- Darparu cymorth ariannol i'r rhain sy'n gadael gofal, er enghraifft Bwrsari Ymadawyr Gofal
- Darparu cyfleoedd dysgu hyblyg a chymorth i ofalwyr ac eraill sydd ag ymrwymiadau gofal, gan gynnwys bwrsari Gofal Plant i rieni o ddysgwyr, a modylau ar-lein i'r rhai sydd am astudio gartref
- Darparu cyfle dilyniant clir a phenodol yn y Dyniaethau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth iechyd meddwl i mewn i ddysgu ar lefel uwch. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar waith y grŵp Ymgyrraedd yn Ehangach, Ymchwil a Mentora (WARM) a RecoverED - y naill a'r llall yn arbenigo mewn cefnogi llwybrau dilyniant at gyfleoedd newydd a chyffrous ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'n cynnwys ymgysylltu â'r darpar fyfyrwyr hyn mewn modd sydd wedi eu targedu trwy ymweliadau, seminarau prynhawn a gweithdai, amrywiol weithgareddau, arosiadau penwythnos profiadau myfyrwyr a chynhadledd fach a gwaith agos parhaus â'r grwpiau hyn
- Darparu cyfleoedd astudio hyblyg ar gyfer Plentyndod ac Addysg gyda'r nos sy'n caniatáu i fyfyrwyr barhau cyflogaeth neu leoliad ar gyflymder llwybr cyflym gan gwblhau gradd lawn ymhen dwy flynedd. Mae hyn yn cefnogi myfyrwyr sy'n dod o gefndir meysydd a phroffesiynau cysylltiedig, yn ogystal â myfyrwyr aeddfed a oedd yn dychwelyd i addysg ac yn hyrwyddo'r ymdrechion i gadw myfyrwyr trwy addysgu'r holl fyfyrwyr sydd ar y llwybr gyda'i gilydd. Cynigir y rhaglen hefyd trwy gyfrwng y Gymraeg yn amodol ar y niferoedd, ac mewn grŵp dwyieithog fel arall
- Darparu rhaglen cyfrwng Cymraeg mewn Astudiaethau Addysg Gynradd, gan gynnwys cymorth i Wasanaethau Myfyrwyr Cyfrwng Cymraeg sy'n anelu at annog camau i recriwtio ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg a'u cyrhaeddiad, er mwyn cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg yn y sector
- Darparu cyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg ar gyfer Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan gysylltu â Rhagoriaith i drefnu tiwtorialau er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer yr asesiadau. Mae'r Dystysgrif Sgiliau Iaith, a gydnabyddir gan gyflogwyr ledled Cymru, yn dangos gallu myfyrwyr i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg
- Hyfforddiant cynefino ychwanegol ar gyfer dysgwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i'w paratoi ar gyfer eu hastudiaethau a gofynion eu rhaglenni

## HAU 1

**Blaenoriaeth Strategol Y Drindod Dewi Sant: Rhoi Dysgwyr yn Gyntaf**

**Amcan 4: Rhoi i bob un o'n dysgwyr brofiad cefnogol a chynhwysol o ansawdd uchel i'w galluogi i gyflawni eu potensial yn llawn**

**Targedau: 13, 14**

**Hyrwyddo Addysg Uwch – Buddsoddiad: £ 1,837,816.30**

Bydd ein cynlluniau ar gyfer darparu ac ymgysylltu'n cynnwys:

- Cynyddu a hyrwyddo amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli, gan gynnwys gyda'r heddlu, y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth carchardai, a'r cyfle i gymhwyso ar gyfer Tystysgrif Gwybodaeth am Blismona; yn ogystal â phrosiectau gwirfoddoli a drefnir gan ddysgwyr trwy Undeb y Myfyrwyr i bob myfyriwr er mwyn gwella sgiliau cyflogadwyedd.
- Hyrwyddo i fyfyrwyr ddyfarniadau achredig ar gyfer dysgwyr i wella gobeithion cyflogadwyedd, mae ein hachredydwyr yn cynnwys: Cymdeithas Cyfrifiaduron Prydain (BCS), Sefydliad Peirianneg Fecanyddol, Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth a Chymdeithas Therapyddion Chwaraeon.
- Darparu cyfleoedd dysgu yn y gwaith sydd wedi eu teilwra trwy achredu darpariaeth gyda nifer o gyflogwyr gan gynnwys Dyslecsia Cymru, Tata Steel, Porth Agored a Chyngor Bwrdeistref Torfaen
- Hyrwyddo i'r holl fyfyrwyr gyfleoedd rhyngwladol a chyfleoedd interniaeth a gynigir ar sail semester neu sail fyrdymor
- Darparu pecyn bwrsari 'cwrs galwedigaethol' £50k i gefnogi'r holl fyfyrwyr ynghylch datblygiad sgiliau proffesiynol ychwanegol
- Darparu hyfforddiant ar gyfer a hyrwyddo sesiynau astudiaeth â chymorth cyfoedion wythnosol (PASS) i gefnogi'r holl fyfyrwyr sydd â deilliannau dysgu
- Darparu rhaglen Dylunio Bywyd (menter i gefnogi myfyrwyr i gymryd rheolaeth ar eu datblygiad personol a'u cyflogadwyedd, gan ddefnyddio dulliau dylunio i greu nifer o lwybrau posibl yn y dyfodol a darganfod ffyrdd arloesol o ddylunio bywyd yn y dyfodol sy'n cyfateb i'w hanghenion a'r hyn sydd ar eu calon) i fyfyrwyr Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, a dewis arall ar-lein sydd ar gael i bob dysgwr oddi mewn i Grŵp Y Drindod Dewi Sant
- Darparu gweithgareddau ymyriad cynnar i bob myfyriwr trwy gyfeirio at wybodaeth a chymorth ariannol, lles a thiwtora
- Darparu a hyrwyddo'r pecyn TG rhad ac am ddim sydd wedi ei wella, sy'n rhoi mynediad i gyfleusterau TG y tu allan i'r campws

ac sy'n cynnig rhaglen 'Technoleg Dros Amser' sy'n caniatáu i ddysgwyr brynu offer TG ar gredyd ar gyfradd ganrannol flynyddol o 0%, dros gyfnod eu rhaglen, gan sicrhau na chaiff cyfyngiadau ariannol effaith negyddol ar gyfranogiad a pherfformiad dysgwyr
- Datblygu a gweithredu fframwaith mentora a hyfforddi newydd i wella'r canlyniadau o ran cadw myfyrwyr
- Darparu sesiynau sgiliau astudio generig, sydd ar gael ac a hyrwyddir i bob myfyriwr ar bob un o'r prif gampysau
- Mentrau megis diwrnodau Datblygiad Personol i alluogi myfyrwyr i adfyfyrio ar eu cynnydd a datblygu amcanion academaidd personol ar gyfer y Semester nesaf.
- Darparu cyfleoedd i alluogi myfyrwyr y mae arnynt angen cymwysterau ychwanegol ar gyfer addysgu i ddilyn gwersi ailsefyll TGAU Mathemateg a/neu Saesneg yng Ngholeg Sir Gâr Y Drindod Dewi Sant Caerfyrddin, am bris gostyngol a hwylustod mynediad i'n myfyrwyr, gan sicrhau y caiff myfyrwyr sydd â diddordeb y cyfle gorau ar gyfer astudio ymhellach
- Mae cyflwyno Hwb – Hybiau Myfyrwyr ar draws campysau Cymru – ym mis Medi 2019 yn ymateb yn uniongyrchol i anghenion a cheisiadau myfyrwyr i ddod â gwasanaethau hanfodol a ffynonellau cymorth at ei gilydd i'w gwneud hi'n haws dod o hyd i wybodaeth. Er bod llawer o wybodaeth ar gael ar-lein, a gellir gwneud ymholiadau trwy amrywiaeth o ddulliau, mae maint ac ethos y brifysgol yn golygu y caiff ymgeiswyr a dysgwyr eu hannog i gysylltu'n bersonol er mwyn sicrhau bod modd trafod eu hanghenion. Caiff hyn ei hadolygu a'i wella mewn ymateb i adborth dysgwyr er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni anghenion a disgwyliadau dysgwyr
- Gweithredu'r dulliau a lywir gan JISC Effective Learning Analytics project i alluogi staff y Brifysgol i nodi'n well y myfyrwyr sydd o dan y risg fwyaf o adael eu hastudiaethau a galluogi tiwtoriaid cymorth i drafod strategaethau â myfyrwyr y gellid eu sefydlu i'w helpu i barhau mewn addysg
- Darparu ap myfyriwr i roi mynediad i'r myfyrwyr i ddata er mwyn nodi eu lefelau ymgysylltu a'u galluogi i gymryd camau cadarnhaol os byddant yn achosi pryder

## HAU 2

**Blaenoriaeth Strategol Y Drindod Dewi Sant: Creu Cyfleoedd trwy Bartneriaethau**

**Amcan 5: Datblygu a gwella ein partneriaethau a'n conffederasiynau â sefydliadau eraill, i gynyddu cyfleoedd addysg uwch a dilyniant i ddysgwyr**

**Targedau: 16**

**Hyrwyddo Addysg Uwch – Buddsoddi: £ 918,908.15**

Bydd ein cynlluniau ar gyfer darparu ac ymgysylltu'n cynnwys:

- Darparu a hyrwyddo cyfleoedd a llwybrau dilyniant o addysg bellach i addysg uwch oddi mewn a'r tu allan i Grŵp Y Drindod Dewi Sant , er enghraifft cyrsiau Lefel 3 mewn Gweinyddu Busnes sy'n arwain at Lefel 4 cyfrifyddu, cyfrifiadureg, rheolaeth, marchnata a rhaglenni cysylltiedig eraill; cyrsiau Lefel 3 peirianneg sy'n arwain at Lefel 4 Peirianneg Fodurol, Peirianneg Sifil, Amgylchedd Adeiladu a rhaglenni cysylltiedig eraill; Galwedigaethol lefel 3 Celf a Dylunio, Ffasiwn a Chelf Sylfaen sy'n arwain at Lefel 4 Dylunio Graffig, Ffotograffiaeth, Gwydr, Dylunio Patrymau Arwyneb ac amrywiaeth o raglenni eraill sy'n gysylltiedig â chelf. Mae ein gwaith o AB i AU yn cynnwys mentrau sy'n perthyn i un o'r tri cham isod:
- Darparu gwybodaeth berthnasol, gyfoes i ddysgwyr yn eu lleoliad dysgu cyfredol, gyda deunydd AB penodol wedi ei ddarparu ar nifer o gampysau ac amrywiaeth o anerchiadau staff ar adegau strategol yn ystod y flwyddyn academaidd
- Darparu gwahoddiadau i ddysgwyr addysg bellach i ddigwyddiadau perthnasol yn y Brifysgol sy'n briodol i raglen a llwybr dilyniant y dysgwr AB, er enghraifft tocynnau ar gyfer sioeau, arddangosiadau, gemau chwaraeon ac ati gyda chymorth ariannol at y costau teithio
- Cefnogi gweithgarwch undebol gyda'r colegau AB trwy Undeb y Myfyrwyr, a'r Brifysgol, hefyd yn rhan o gefnogi gweithgarwch yr undeb oddi mewn i'r colegau AB sy'n bwydo
- Dysgu profiadol – cymorth ar gyfer sesiynau blasu yn y Brifysgol ar gyfer darpar ymgeiswyr o addysg bellach. Caiff cyfleoedd penodol eu creu ar gyfer sesiynau dosbarth cyfan a dysgwyr unigol. Caiff dysgwyr AB gyfle i ddefnyddio offer y Brifysgol wrth astudio – er enghraifft, mynediad i drac beicio awyr agored Cynefin, defnyddio'r theatr a mynediad i offer peirianneg technoleg uchel
- Byddwn yn cynyddu nifer y llwybrau Prentisiaeth Uwch a Gradd i lenwi bylchau sgiliau rhanbarthol a darparu cyfleoedd dilyniant i godi dyheadau cyflogaeth i ddysgwyr mewn addysg bellach
- Cynyddu'r cyfleoedd am ddilyniant ar gyfer dilyniant di-dor ar gyfer dysgwyr o 18 oed, ar lefel 2, a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu gydol oes
- Cefnogi dilyniant trwy fynediad penodol i bwnc megis Cynhadledd AB/AU Grŵp i bob myfyriwr
- Bwrsarïau Coleg Cyfansoddol i gefnogi rhagoriaeth a dilyniant gan golegau oddi mewn i Grŵp Y Drindod Dewi Sant
- Cyfleoedd cynyddol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn AB ac AU yn y Grŵp i sicrhau bod modd i ddysgwyr wneud cynnydd trwy lwybrau cyfrwng Cymraeg at addysg uwch, yn rhan o strategaeth cyfrwng Cymraeg Grŵp i hybu a chefnogi dysgu ar draws AB ac AU

## HAU 3

**Blaenoriaeth Strategol Y Drindod Dewi Sant: Creu Cyfleoedd trwy Bartneriaethau**

**Amcan 6: Parhau i weithio'n agos gyda chyflogwyr rhanbarthol i nodi meysydd angen a datblygu poblogaeth fedrus ac addysgol, gan gynnwys trwy gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith a Phartneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol**

**Targedau: 17**

**Hyrwyddo Addysg Uwch – Buddsoddi: £ 918,908.15**

Bydd ein cynlluniau ar gyfer darparu ac ymgysylltu'n cynnwys:

- Cynyddu cyfleoedd prentisiaeth i gynyddu cyflogadwyedd oddi mewn i Gymru, yn enwedig ar gyfer dysgwyr rhan-amser ac aeddfed trwy ymgysylltu â chyflogwyr rhanbarthol i nodi anghenion sgiliau a dysgwyr posibl
- Darparu lleoliadau ychwanegol, cyfleoedd datblygiadol a chyflogaeth mewn diwydiannau creadigol a digidol ar gyfer myfyrwyr, er enghraifft Bad Wolf
- Cydberchenogi, cyd-greu, cyd-leoli cwricwlwm â chwmnïau, darparu cyfleoedd i'r Brifysgol weithio gyda chwmnïau i ddatblygu cyrsiau a ddiffiniwyd gan y diwydiant a chyfleoedd ar gyfer lleoliadau yn rhan o hyrwyddo addysg uwch i fyfyrwyr posibl efallai nad ydynt wedi gweld gwerth addysg uwch yn ddewis bywyd sy'n arwain at gyflogaeth

- Dolenni sy'n galluogi dysgwyr Peirianneg Foduro i gymryd rhan mewn pencampwriaeth genedlaethol yn rhan o dimau rasio a arweinir gan ddysgwyr
- Darparu cyfleoedd i gynyddu cyflogadwyedd dysgwyr, gan gynnwys lleoliadau gwaith neu gynlluniau gwirfoddolwyr. Er enghraifft, mae'r 'Pwynt Helpu' wedi cael ei sefydlu yn Abertawe ac fe'i gweithredir gan Ambiwlans Sant Ioan, Heddlu De Cymru a'n gwirfoddolwyr. Mewn partneriaeth â Gwirfoddolwyr Mileniwm (MV), mae myfyrwyr yn sicrhau dyfarniad MV am eu gwaith
- Cynyddu darpariaeth Prentisiaeth Uwch a Gradd i ddiwallu anghenion sgiliau a nodir mewn sectorau a'r rhanbarth trwy ymgysylltu â chyflogwyr, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB), Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol, Cynghorau Sgiliau Sector a chynrychiolwyr cyflogwyr, Sgiliau ar gyfer Cyfiawnder, Instructus, y Sefydliad ar gyfer Peirianwyr Ffrwydrol a Choleg Plismona i sicrhau bod y ddarpariaeth a ddatblygwyd ac sy'n datblygu yn bodloni Safonau Prentisiaeth (Lloegr) a Fframweithiau Prentisiaeth (Cymru) ac y caiff y myfyrwyr y lefelau sgiliau a'r canlyniadau y mae arnynt eu hangen ar gyfer cyflogaeth
- Cynyddu niferoedd dysgu seiliedig ar waith a niferoedd dysgu rhan-amser trwy ddarparu rhaglenni a ddatblygwyd gyda chyflogwyr ar gyfer eu gweithwyr, sy'n bodloni union ofynion eu diwydiant ac sy'n cynyddu gobeithion cyflogaeth

## HAU 4

**Blaenoriaeth Strategol: Prifysgol Cymru**

**Amcan 7: Cryfhau cyflogadwyedd Graddedigion Cymru**

**Targedau: 15, 18**

**Hyrwyddo Addysg Uwch – Buddsoddi: £ 1,837,816.30**

Bydd y gweithgareddau y bydd y Brifysgol yn ei wneud i gyflawni'r nod hwn hefyd yn cyfrannu i'r Amcan, Parhau i weithio'n agos gyda chyflogwyr rhanbarthol i nodi meysydd angen a datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig, gan gynnwys trwy gyfleoedd seiliedig ar waith a chynlluniau Phartneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer darparu ac ymgysylltu yn cynnwys:

- Trefnu a chymryd rhan mewn digwyddiadau i ddarparu gwybodaeth am gychwyn busnesau a hunangyflogaeth i fyfyrwyr a'u hannog i ddilyn syniadau, er enghraifft dathlu Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang bob mis Tachwedd trwy ddarparu'r symposia a'r cyflwyniadau gan raddedigion entrepreneuraidd y Brifysgol i'ch ysbrydoli a'ch helpu i archwilio'r potensial; Trefnu Cynhadledd Diwrnod Animeiddio Abertawe; Anelu at Ragoriaeth: Dathlu Rhagoriaeth Myfyrwyr; Gŵyl Ffilmiau Copper Coast; Wythnos Ddylunio'r Celfyddydau Digidol a Graffig; a Gwesteiwyr Ifanc a Lletygarwch
- Cydweithio'n agos â rhanddeiliaid megis Llywodraeth Cymru, Busnes mewn Ffocws, Indycube a Hwb Tech Hub i gynyddu adnoddau a chreu seilwaith cynaliadwy, er enghraifft, darparu nifer o weithgareddau rhwydweithiau ar gyfer myfyrwyr bob blwyddyn, a siaradwyr cyhoeddus o'r diwydiant technegol i'r myfyrwyr gael rhwydweithio â nhw, yn ogystal â darpar gyflogwyr a buddsoddwyr, a darparu cymorth entrepreneuraidd a mentora ar gyfer busnesau newydd graddedigion
- Hyrwyddo 'Pentref Bwlch', yn seiliedig ar syniad troi cynwysyddion cludo i ddarparu lle fforddiadwy, hyblyg ar gyfer cwmnïau sy'n dod â myfyrwyr, academyddion a busnesau ynghyd i rannu arbenigedd er mwyn archwilio syniadau newydd ar gyfer twf, sy'n cynnwys cyfres o bafiliynau (Hybiau), a phob un â ffocws penodol sy'n cysylltu'n uniongyrchol ag agweddau ar raglen academaidd y Brifysgol a chreu 'cymunedau ymarfer' gan ddod â myfyrwyr, academyddion a busnesau ynghyd i archwilio syniadau a chreu cyfleoedd ar gyfer datblygu busnesau, cynhyrchion a gwasanaethau newydd
- Hyrwyddo tŷ hwb menter Cymru yn Yr Egin, a redir gan Fusnes mewn Ffocws, sy'n galluogi'r Egin i weithio'n agos gyda Busnes mewn Ffocws yn ogystal â phartneriaid allweddol eraill i ddarparu'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymhelliant i annog llwyddiant entrepreneuraidd
- Darparu amrywiaeth o ddyfarniadau i gefnogi a gwella cyflogadwyedd gan gynnwys arian interniaeth a bwrsari "Uwchsgilio" i gefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau ychwanegol
- Cefnogi mentrau sy'n canolbwyntio ar fenter, megis rhaglen y swigen greadigol Creative Bubble
- Darparu rhagor o hyder, sgiliau a chymwysterau i wella cyflogaeth i ôl-raddedigion trwy raglen sy'n cynnwys sgiliau trosglwyddadwy entrepreneuriaeth, ymdrin â digwyddiadau annisgwyl, cydnerthedd, menter a chyfrifoldeb personol, datrys problemau a chreadigrwydd, arfer adfyfyriol a meddylfryd mentrus; darlithoedd gwadd gan ymarferwyr ac Athrawon Ymarfer, teithiau maes i ddiwydiant, er enghraifft 3M's, y Bathdy Brenhinol, Stadiwm Liberty a'r Senedd.
- Sicrhau bod pob dysgwr yn cael cymorth a chyngor priodol gydol eu taith academaidd i'w galluogi i gyflawni eu dyheadau gyrfa, er enghraifft, darparu sesiynau sgiliau astudio generig sy'n cael eu cynnal ar bob prif gampws yn ystod y tymor; sesiynau llesiant galw heibio (i hybu iechyd meddwl myfyrwyr) a gynhelir ar bob prif gampws yn ystod y tymor, menter SoCom (grŵp cymorth i fyfyrwyr sydd ag anawsterau cymdeithasol a chyfathrebu a gynhelir ar bob prif gampws yn ystod y tymor)
- Cynyddu sgiliau cyflogadwyedd, a rhoi mantais gystadleuol i raddedigion ar gyfer cyflogadwyedd trwy, er enghraifft, y rhaglen TystAU Sgiliau ar gyfer y Gweithle

Trwy waith sy'n ymwneud â'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu, gan roi modelau addysgu personol i sicrhau ymrwymiad gweithredol i ddysgu ac astudio ar ran y myfyrwyr

# 9. Cymorth Ariannol i'n Dysgwyr

Er 2014/15, mae oddeutu £1m wedi'u dosbarthu'n flynyddol drwy becyn **bwrsariaethau ac ysgoloriaethau'r** Brifysgol. Cefnogwyd 2,534 o ddysgwyr trwy ein bwrsariaethau yn 2017/18 (£943,891), a chefnogwyd 439 o ddysgwyr trwy ein hysgoloriaethau (£189,079). Mae'r pecyn presennol (ar gyfer 2019/20) yn darparu oddeutu £1.5m i gefnogi dysgwyr israddedig amser llawn a rhan-amser o'r DU a'r UE.

Darpara'r pecyn bwrsariaethau fynediad i gymorth ariannol cynhwysfawr i bob dysgwyr, gan wneud darpariaeth benodol ar gyfer ein grwpiau sydd heb gefnogaeth ddigonol. Mae nodweddion allweddol y pecyn cyfredol yn cynnwys:

- Bwrsariaethau sy'n benodol i bwnc, gan gynnwys y rhai a ddyluniwyd i gefnogi dilyniant;
- Bwrsariaethau i ddysgwyr rhan-amser;
- Bwrsariaethau Colegau Grŵp Y Drindod Dewi Sant i gefnogi rhagoriaeth academaidd a dilyniant gan golegau oddi mewn i Grŵp Y Drindod Dewi Sant;
- Ysgoloriaethau Dwyieithog Cyfrwng Cymraeg i gefnogi dysgwyr sy'n gwneud y cyfan neu ran o'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Cymorth ariannol parhaus i'r rhai sy'n gadael gofal, gofalwyr sy'n oedolion ifanc a dyfarniad i gynorthwyo dysgwyr anabl gyda chostau asesiad diagnostig;
- Amrywiaeth o ddyfarniadau i gefnogi a gwella cyflogadwyedd gan gynnwys arian interniaeth a bwrsariaeth "Uwchsgilio" i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu sgiliau ychwanegol.

Cydnabyddwn yr angen i fonitro effeithiolrwydd y pecyn bwrsariaethau i gefnogi cyflawni targedau ein Cynllun Ffioedd a Mynediad, ac i'w addasu o dro i dro i adlewyrchu datblygiadau yn ein darpariaeth academaidd.

Sefydlwyd Cronfa Galedi'r Drindod Dewi Sant ym mis Medi 2015 sydd werth £200K bob blwyddyn. Gwnaethpwyd mwy na 400 o ddyfarniadau yn 2017/18. Mae'r gronfa'n cefnogi dysgwyr dan y categorïau canlynol: costau anabledd, llyfrau a chyfarpar, llety, gofal plant, trafnidiaeth, costau cyfleustodau, costau byw, dyledion pwysicaf, ac oedi ynghylch benthyciadau cyllid myfyrwyr. Pan fo'n bosibl tynnir cymorth ar gyfer gofal plant, llyfrau a chyfarpar, trafnidiaeth a llety o'r pecyn bwrsariaethau, ond cefnogir rhai dysgwyr, yn benodol rhieni sengl, ar gyfer gwariant o'r fath o'r Gronfa Galedi. Mae gwasanaeth cynghori ariannol y Meddygon Arian ar gael i gynorthwyo dysgwyr sy'n agored i niwed gyda cheisiadau cymhleth am fenthyciadau ac ailasesiadau, cyllidebu, a pharatoi cynlluniau talu ar gyfer ôl-ddyledion llety. Tynnwyd i lawr bron iawn £1m o Gyllid Myfyrwyr yn sgil gwaith achosion gan y tîm llynedd.

Mae **gwefan y Brifysgol** yn darparu gwybodaeth ar gyfer dysgwyr a darpar ddysgwyr ynghylch ffioedd dysgu, costau ychwanegol astudio, manteisio ar gyllid, bwrsariaethau ac ysgoloriaethau, a ffynonellau eraill ar gyfer cyngor a chymorth ariannol. Mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, byddwn yn parhau i weithio ar wella'r wybodaeth rydym yn ei darparu.

# 10. Monitro a Gwerthuso'r Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

**Cydymffurfiaeth Gyffredinol**

Monitrir cydymffurfiaeth gyffredinolo â'r Cynllun trwy strwythurau sydd wedi eu hymgorffori a phrosesau blynyddol y Brifysgol. Cymeradwyir cyflwyniadau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad ac adroddiadau monitro ar batrwm cylch gan Gyngor y Brifysgol, ac maent wedi eu hamserlennu ar agendâu ymlaen llaw unwaith y bydd amserlenni wedi eu derbyn gan CCAUC.

Mae Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad y Cyngor yn craffu ar y cyflwyniadau a'r adroddiad monitro arfaethedig, gyda'r Cyngor yn rhoi'r gymeradwyaeth derfynol. Caiff y Cyngor ddiweddariadau perfformiad ynghylch targedau'r Cynllun Ffioedd a Mynediad i sicrhau y parheir i oruchwylio'r cynnydd.

Y Pwyllgor Polisi Corfforaethol (Pwyllgor y Senedd), o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor (Cyllid a Chynllunio), sy'n cynnal goruchwyliaeth weithredol ar fersiynau drafft, targedau a chynnwys y Cynllun, yn ogystal ag adroddiadau perfformiad.

Mae swyddogion Undeb y Myfyrwyr yn eistedd ar Gyngor y Brifysgol, y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, y Senedd a'i phwyllgorau. Mae Prif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr a swyddogion yr Undeb sy'n cyfarfod yn rheolaidd ag uwch staff ar draws y sefydliad lle gellir codi problemau a phryderon a'u trafod.

**Cydymffurfio â Lefelau Ffioedd**

Cyngor y Brifysgol sy'n goruchwylio'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, sy'n pennu ffioedd cyrsiau ar gyfer rhaglenni astudio israddedig amser llawn a TAR gyda SAC i fyfyrwyr o'r DU/UE. O'r herwydd, caiff y Cyngor Gynlluniau drafft ac mae'n cymeradwyo cyflwyniadau, gan sicrhau y gosodir ffioedd oddi mewn i gyfyngiadau a ganiateir ac a gadarnheir gan Lywodraeth Cymru, a bod y targedau'n unol â chyfarwyddyd ac uchelgais strategol sefydliadol a chenedlaethol.

Trwy ei Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, caiff Cyngor y Brifysgol ddiweddariadau rheoliadau ar gwynion myfyrwyr, gan ddarparu dull ar gyfer monitro unrhyw gwynion a gyflwynwyd ar ffioedd gormodol. Yn ystod 2017/18, ni wnaed unrhyw gwynion o'r fath. Fodd bynnag, mae Cyngor y Brifysgol yn ymwybodol o'i hymrwymiadau i ddarparu tystiolaeth i CCAUC y cymerir camau priodol, i ddigolledu dysgwyr os bydd achosion o'r fath,.

**Perfformiad o ran Amcanion a Thargedau**

Mae targedau Cynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Cynllun Strategol Sefydliadol a'i is-strategaethau. Mae'r targedau a'r amcanion yn ymwneud â blaenoriaethau sectoraidd a chenedlaethol, ac fe'u monitrir yn rheolaidd gan uwch swyddogion ac adroddir arnynt wrth bwyllgorau gydol y flwyddyn.

Yn rhan o brosesau monitro perfformiad ac adrodd safonol y Brifysgol, caiff y Pwyllgor Polisi Corfforaethol a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ddiweddariadau perfformiad sefydliadol yn eu cyfarfodydd. Wedyn cyflwynir gwybodaeth berfformiad i Gyngor y Brifysgol, a'i monitro ganddo, gydol y flwyddyn.

Os bydd tanberfformio, mae'r broses barhaus o adolygu meysydd allweddol yn sicrhau y gellir cynllunio ymyriadau a'u rhoi ar waith yn gynnar

Adolygir y cynnydd o ran cyflawni'r targedau yn flynyddol, yn unol â blaenoriaethau sectoraidd a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg, er mwyn llywio dulliau'r dyfodol o gynllunio a phennu targedau. Defnyddiwn ffigurau perfformiad a setiau data i lywio ein huchelgais ynghylch lefel perfformiad. Ceir rhagor o wybodaeth am ein dull o werthuso'r Cynlluniau Ffioedd a Mynediad yn adran 5 – yr Adolygiad Strategol.

# Enw'r sefydliad:
# Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

**Adran 3 Awdurdodi cais cynllun ffioedd a mynediad 2020/21**

**Awdurdodi'r cais am gyflwyno cynllun ffioedd a mynediad 2020/21 i CCAUC**

Wrth awdurdodi cyflwyno ceisiadau ffioedd a mynediad i CCAUC, mae cyrff llywodraethu:

i. yn cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yng nghais cynllun ffioedd a mynediad 2020/21 yn gywir adeg ysgrifennu a'i bod yn seiliedig ar ddata y gellir eu gwirio.

ii. yn cadarnhau: **[dileer un neu ragor o'r datganiadau, fel y bo'n briodol]**
   a. ei bod yn dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansoddol a/neu wybodaeth/data arall sydd ganddo am sefydliad a reoleiddir ar hyn o bryd, ni waeth a gasglwyd y wybodaeth/data yn wreiddiol at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015

iii. yn deall bod CCAUC yn cadw'r hawl i ymweld â sefydliadau i ddeall yn well gymhwysedd sy'n gysylltiedig â'r sefydliad a rheoli materion ariannol, y data a gyflwynir ar gynlluniau ffioedd a mynediad ac ansawdd yr addysg a ddarperir ar, neu ar ran sefydliadau.

iv. yn deall bod rhaid iddynt ddarparu gwybodaeth, cymorth a mynediad i'w cyfleusterau a chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch ar eu rhan, i CCACU a/neu asiant CCACU.

v. yn deall y caiff CCAUC gynnal, neu drefnu i asiant gynnal, adolygiad ar ansawdd yr addysg a ddarperir gan y sefydliadau, neu ar eu rhan, a rhaid i gyrff llywodraethu gymryd i ystyriaeth unrhyw gyngor a roddir iddynt gan CCAUC neu'r corff a benodwyd gan CCAUC i'r perwyl.


vi. yn cadarnhau y cymerir i ystyriaeth yr holl addysg a ddarperir ganddynt, neu ar eu rhan, bid a fo am lefel neu leoliad y ddarpariaeth yng nghais y cynllun ffioedd a mynediad.

vii. yn cadarnhau mai ychydig o risg sydd i'r sefydliad fethu am resymau ariannol yn y tymor hir neu ganolig.

viii. yn cadarnhau yr archwilir y cyfrifon bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig ac nad yr un cwmni a/neu'r unigolyn a luniodd y cyfrifon yw'r archwilydd cofrestredig.

ix. yn deall bod rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar gyfer addysg uwch.

x. yn deall bod rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymiadau ariannol a wneir i fyfyrwyr yn y cynllun ffioedd a mynediad gwreiddiol, fel y'u cymeradwywyd gan y CCACU.

| **cyflwyniad cais cynllun ffioedd a mynediad 2020/21 i CCAUC [6]** | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyaeth y Corff Llywodraethu: | 21 Mawrth 2019 |
| Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu: | |
| Dyddiad: | 21 Mawrth 2019 |
| **Cyflwyniad cynllun ffioedd a mynediad terfynol 2020/21 (pan fo'n berthnasol)** | |
| Dyddiad cymeradwyaeth y Corff Llywodraethu: | 26 Medi 2019 |
| Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu: |  |
| Dyddiad: | 26 Medi 2019 |

[6] Fersiynau cynlluniau ffioedd a mynediad a gymeradwywyd gan CCAUC yw'r unig rai y gellir eu cyhoeddi ar wefannau sefydliadau.

**Cynllun mynediad a ffioedd sefydliadol 2020/21**
**Tabl A: Lefelau ffioedd a buddsoddiad ac incwm o ffioedd, 2020/21**

| | |
|---|---|
| Enw'r sefydliad: | Prifysgol y Drindod Dewi Sant |
| UKPRN y sefydliad: | 10007858 |

| | Rhowch Ydyn neu Nac ydyn |
|---|---|
| Ydych chi wedi nodi lefel ffioedd yn eich cynllun mynediad a ffioedd? | Nac ydyn |

Rhaid i sefydliadau sydd heb nodi lefel ffioedd lenwi'r ddogfen hon gan ddefnyddio eu hincwm ffioedd disgwyliedig ar gyfer 2020/21. Rydym yn derbyn mai rhagolygon yn unig yw'r ffigurau hyn ac nid ymrwymiad i lefelau ffioedd.

a) Beth yw eich lefel ffioedd arfaethedig uchaf?

| | £ |
|---|---|
| Israddedigion llawn-amser | 9,000 |
| TAR (SAC) llawn-amser | 9,000 |

b) A yw'r ffioedd arfaethedig yn a) (uchod) yn cael eu codi am bob darpariaeth israddedig a TAR (SAC) llawn-amser yn eich sefydliad neu a gânt eu darparu ar eich rhan?

| | Rhowch Ydy neu Nac ydy |
|---|---|
| Israddedigion llawn-amser | Nac ydy |
| TAR (SAC) llawn-amser | Ydy |

c) Os nad ydy, beth yw'r ffi gyfartalog (gymedrig) debygol i bob myfyriwr israddedig a TAR (SAC) llawn-amser?

| | £ |
|---|---|
| Israddedigion llawn-amser | 8,990 |
| TAR (SAC) llawn-amser | 9,000 |
| Pob myfyriwr IR/TAR (SAC) llawn-amser yn y cynllun | 8,990 |

d) Pa incwm trefn ffioedd bresennol ydych chi'n disgwyl ei dderbyn yn 2020/21? Dylech gynnwys yr holl incwm ffioedd a dderbynnir am bob myfyriwr israddedig llawn amser a TAR (SAC).

| | £ |
|---|---|
| Israddedigion llawn-amser | 71,731,800 |
| TAR (SAC) llawn-amser | 2,607,750 |
| **Cyfanswm** | **74,339,550** |

e) Rhowch fanylion am faint o incwm ffioedd rydych yn disgwyl ei fuddsoddi mewn perthynas â chyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch. Lle roedd gan ddarparwyr addysg uwch gynlluniau 2019/20 haid i'r gyfran o gyfanswm yr incwm a fuddsoddwyd yn 2020/21 fod o leiaf y gyfran a fuddsoddwyd yn 2019/20. Yn achos yr ymgeiswyr hynny, mae CCAUC wedi darparu islaw swm a chanran cyfanswm incwm 2019/20.

| | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm i'w fuddsoddi yn y canlynol: | £ | % o gyfanswm yr incwm | £ | % o gyfanswm yr incwm |
| Cyfle cyfartal | 11,026,898 | 14.8% | 7,112,826 | 11.4% |
| Hyrwyddo addysg uwch | 5,513,449 | 7.4% | 6,966,774 | 11.1% |
| **Cyfanswm** | **16,540,347** | **22.2%** | **14,079,600** | **22.5%** |

Os yw'r cyfrannau'n wahanol, rhowch sylwebaeth isod:

Cyfanswm y buddsoddiad yw £ 16,726,399 sy'n cynrychioli 22.5% o'r incwm - mae hyn yn cynnwys ffigurau a ddarperir yn Nhabl B ar gyfer y Cyrraedd Ehangach, yn ogystal â chostau gwerthuso, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau ar e) uchod.

**Cynllun mynediad a ffioedd sefydliadol 2020/21**
**Tabl B: Rhagolwg gwariant incwm y cynllun mynediad a ffioedd, 2020/21**

Enw'r sefydliad: Prifysgol y Drindod Dewi Sant
UKPRN y sefydliad: 10007858

a) Cyfle cyfartal

| **Amcanion i wella cyfleoedd cyfartal** | 2020/21 £ | 2019/20 £ |
|---|---|---|
| 1. Objective 1: Promote and safeguard fair access to higher education from under-represented groups | 1,837,816 | |
| 2. Objective 2: Attract potential students from under-represented groups | 5,513,449 | |
| 3. Objective 3: To support and increase progression, retention and completion of people from under-represented groups | 3,675,633 | |
| **Cyfanswm** | **11,026,898** | **7,112,826** |
| Canran o'r rhagolwg gwariant i'w wario ar Gyfle Cyfartal | 66.5% | 50.5% |

b) Hyrwyddo AU

| **Amcanion i hybu addysg uwch** | 2020/21 £ | 2019/20 £ |
|---|---|---|
| 1. Objective 4: To provide all of our learners with a high quality, supportive and inclusive learning experience to enable them to achieve their full potential | 1,837,816 | |
| 2. Objective 5: To develop and enhance our partnerships and confederations with other institutions, to maximise higher education and progression opportunities for learners | 918,908 | |
| 3. Objective 6: To continue to work closely with regional employers to identify areas of need and to develop a skilled and educated population, including through work-based | 918,908 | |
| 4. Objective 7: To strengthen the employability of Welsh Graduates | 1,837,816 | |
| **Cyfanswm** | **5,513,449** | **6,966,774** |
| Canran y gwariant disgwyliedig i'w wario ar hybu addysg uwch | 33.3% | 49.5% |

| c) Gwerthusiad | 2020/21 £ | 2019/20 £ |
|---|---|---|
| 1. Buddsoddiad mewn gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau mynediad a ffioedd | 40,000 | |

| d) Cyfanswm gwariant disgwyliedig incwm cynllun mynediad a ffioedd 2020/21, a) + b) + c) | 2020/21 £ | 2019/20 £ |
|---|---|---|
| | **16,580,347** | **14,079,600** |

| e) Ymgyrraedd yn Ehangach | 2020/21 £ | 2019/20 £ |
|---|---|---|
| 1. Buddsoddiad i gefnogi'r Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach | 146,052 | 146,052 |

f) Cymorth ariannol i fyfyrwyr (eisoes wedi eu cynnwys yn a) a b) uchod)

| | 2020/21 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | Niferoedd myfyrwyr a gynorthwyir a ragwelir | £ | Niferoedd myfyrwyr a gynorthwyir a ragwelir |
| Hepgor ffioedd | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bwrsariaethau | 1,367,327 | 2,730 | 1,163,910 | 2,730 |
| Ysgoloriaethau | 404,121 | 387 | 344,000 | 387 |
| Cronfeydd caledi | 270,197 | 460 | 230,000 | 460 |
| Darparu cyngor a sgiliau rheoli ariannol | 798,844 | 2,000 | 680,000 | 2,000 |
| Cymorth ariannol arall | 881,078 | 2,000 | 750,000 | 2,000 |
| **Cyfanswm** | **3,721,566** | **7,577** | **3,167,910** | **7,577** |
| Canran o'r rhagolwg gwariant i'w wario ar gefnogaeth ariannol i fyfyrwyr | 22.5% | | 19.1% | |

**Cynllun mynediad a ffioedd sefydliadol 2020/21**
**Tabl C: Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig llawn amser a TAR (SAC) o dan y drefn ffioedd bresennol, 2020/21**

Enw'r sefydliad: Prifysgol y Drindod Dewi Sant
UKPRN y sefydliad: 10007858

| **Crynodeb o'r data** | SRADDEDIGION LLAWN-AMSEI | TAR (SAC) LLAWN-AMSER |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr incwm disgwyliedig | 65,754,000 | 2607750 |
| Cyfanswm nifer disgwyliedig y myfyrwy | 7,310 | 289.75 |
| Ffi gyfartalog | 8,995 | 9000 |

| Rhes | Ffi arfaethedig £ | Nod y cymhwyster (neu ddull arall o grwpio) | Pwnc (neu ddull arall o grwpio) | Blwyddyn (blynyddoedd) y cwrs | TAR (SAC) Y/N? | Nifer rhagdybiedig myfyrwyr a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r ffi gyfartalog | A yw'r ddarpariaeth hon yn cael ei dilysu gan gorff arall? Y neu N | Os Y, rhowch enw'r corff dilysu | Cyfanswm yr incwm disgwyliedig (nifer y myfyrwyr x ffi arfaethedig) £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 9,000 | Tystysgrif AU | | Pob Blwyddyn | N | 2,250 | N | | 20,250,000 |
| 2 | 9,000 | HND | Diploma Cenedlaethol Uwch | Pob Blwyddyn | N | 250 | N | | 2,250,000 |
| 3 | 9,000 | Gradd Sylfaen | Gradd Sylfaen | Pob Blwyddyn | N | 60 | N | | 540,000 |
| 4 | 9,000 | Gradd Israddedig | Graddau Cyntaf | Pob Blwyddyn | N | 4,605 | N | | 41,445,000 |
| 5 | 1,800 | Blwyddyn Ryngosod (blwyddyn mewn diwydiant) | | Pob Blwyddyn | N | 5 | N | | 9,000 |
| 6 | 9,000 | Meistr Integredig | Meistr Integredig | Pob Blwyddyn | N | 140 | N | | 1,260,000 |
| 7 | 9,000 | TAR | TAR | Pob Blwyddyn | Y | 290 | N | | 2,607,750 |

**Cynllun mynediad a ffioedd sefydliadol 2020/21**
**Tabl D: Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig llawn amser a TAR (SAC) o dan y drefn ffioedd bresennol ar gyfer darpariaeth partneriaeth yn y DU, 2020/21**

Enw'r sefydliad: Prifysgol y Drindod Dewi Sant
UKPRN y sefydliad: 10007858

| **Crynodeb o'r data** | ISRADDEDIGION LLAWN-AMSER | TAR (SAC) LLAWN-AMSER |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr incwm disgwyliedig | 5,977,800 | 0 |
| Cyfanswm nifer disgwyliedig y myfyrwyr | 669 | 0 |
| Ffi gyfartalog | 8,935 | |

| Rhes | Enw'r Partner | Cyfeiriad y Partner | Cadarnhewch bod y partner yn elusen *(Cadarnhawyd)* | Nod y cymhwyster Dewiswch oddi ar y gwymprestr | Teitl y Cwrs | PGCE (QTS) Y/N? | Dyddiad y cytundeb partneriaeth (DD/MM/BB) | Os yw dyddiad y cytundeb partneriaeth cyn 1 Medi 2015, ceir atodiad sy'n cadarnhau bod y ddarpariaeth yn dod o dan y Ddeddf AU *(Cadarnhawyd)* | Blwyddyn (blynyddoedd) y cwrs | Nifer rhagdybiedig myfyrwyr a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r ffi gyfartalog | Ffi arfaethedig £ | Cyfanswm yr incwm disgwyliedig (nifer y myfyrwyr x ffi arfaethedig) £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (c) Gradd Sylfaen | Gwyddor Anifeiliaid | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 12 | 9,000 | 108,000 |
| 2 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Ymddygiad a Lles Anifeiliaid | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 14 | 9,000 | 126,000 |
| 3 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Celf a Dylunio: Amlddisgyblaethol | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 20 | 9,000 | 180,000 |
| 4 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (c) Gradd Sylfaen | Amaethyddiaeth | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 4 | 9,000 | 36,000 |
| 5 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Amaethyddiaeth | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 3 | 9,000 | 27,000 |
| 6 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (c) Gradd Sylfaen | Amaethyddiaeth | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 4 | 9,000 | 36,000 |
| 7 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Amaethyddiaeth | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 3 | 9,000 | 27,000 |
| 8 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (e) Diploma Cenedlaethol Uwch | Cyfrifiadura Cymhwysol | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 8 | 9,000 | 72,000 |
| 9 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Cyfrifiadura Cymhwysol | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 6 | 9,000 | 54,000 |
| 10 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (c) Gradd Sylfaen | Astudiaethau Plentyndod | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 40 | 9,000 | 360,000 |
| 11 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Cerameg a Gemwaith: Gwneuthurwr 3D | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 20 | 9,000 | 180,000 |
| 12 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (c) Gradd Sylfaen | Cwnsela | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 30 | 9,000 | 270,000 |
| 13 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Cwnsela | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 10 | 9,000 | 90,000 |
| 14 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Darlunio Digidol | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 25 | 9,000 | 225,000 |
| 15 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Celf Gain (Peintio, Darlunio a Gwneud Printiau) | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 22 | 9,000 | 198,000 |
| 16 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Ffasiwn: Dylunio a Llunio Dillad | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 18 | 9,000 | 162,000 |
| 17 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Cyfathrebu Graffig | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 12 | 9,000 | 108,000 |
| 18 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (e) Diploma Cenedlaethol Uwch | Peirianneg Fecanyddol | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 6 | 9,000 | 54,000 |
| 19 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Ffotograffiaeth | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 30 | 9,000 | 270,000 |
| 20 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Cerflunio: Castio, Cerfio, Llunio | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 25 | 9,000 | 225,000 |
| 21 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (c) Gradd Sylfaen | Hyfforddiant a Pherfformiad Chwaraeon | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 6 | 9,000 | 54,000 |
| 22 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Hyfforddiant a Pherfformiad Chwaraeon | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 3 | 9,000 | 27,000 |
| 23 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (c) Gradd Sylfaen | Hyfforddiant a Pherfformiad Rygbi | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 6 | 9,000 | 54,000 |
| 24 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Hyfforddiant a Pherfformiad Rygbi | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 3 | 9,000 | 27,000 |
| 25 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (c) Gradd Sylfaen | Hyfforddiant a Pherfformiad Pêl-droed | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 6 | 9,000 | 54,000 |
| 26 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Hyfforddiant a Pherfformiad Pêl-droed | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 3 | 9,000 | 27,000 |
| 27 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (c) Gradd Sylfaen | Astudiaethau Gofal Cymdeithasol | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 38 | 9,000 | 342,000 |
| 28 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Astudiaethau Gofal Cymdeithasol | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 20 | 9,000 | 180,000 |
| 29 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Tecstilau: Gwau, Gwehyddu a Chyfryngau Cymysg | N | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 18 | 9,000 | 162,000 |
| 30 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Nyrsio Milfeddygol (blwyddyn ryngosod) | N | 19/09/2011 | Y | 3 | 6 | 1,800 | 10,800 |
| 31 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DI | Y | (a) Graddau Cyntaf | Nyrsio Milfeddygol | N | 19/09/2011 | Y | 1, 2, 4 | 24 | 9,000 | 216,000 |

**Cynllun mynediad a ffioedd sefydliadol 2020/21**
**Tabl G: Targedau**

Enw'r sefydliad: Prifysgol y Drindod Dewi Sant
UKPRN y sefydliad: 10007858

| Rhes | Disgrifiad o'r targed (dim mwy na 500 nod) | Amcan cysylltiedig (fel y rhestrir yn nhabl B a) a B b)) Dewiswch o'r gwymplen | A yw cyflawni'r targed yn gyfrifoldeb i fwy nag un ymgeisydd cynllun mynediad a ffioedd? | | Blwyddyn gwaelodlin | Data gwaelodlin | | Gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer blwyddyn waelodlin | | | Targed 2020/21 | | Gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer y targed 2020/21 | | | Targedau tymor hwy dewisol 2021/22 | | Targedau tymor hwy dewisol 2022/23 | | Rhowch sylwadau ar dargedau 2020/21 os nad yw disgrifiadau rhifiadol yn briodol, neu os oes angen darparu gwybodaeth arall. Byddem yn disgwyl bod mwyafrif y targedau yn rhai rhifiadol. (dim mwy na 500 nod) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Y / N | Os Y, rhowch enw'r partner (partneriaid) | | Nifer | % | Poblogaeth | Nifer | % | Nifer | % | Poblogaeth | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | |
| 1 | Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n mynd i gyrsiau addysg uwch sy'n rhai rhan-amser. | Amcan 2: Denu darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol | N | | 2017/18 | 2,473 | | | 2,473 | | 3,300 | | | | | | | | | |
| 2 | Cynnal y meincnod uchod ar gyfer cyfran y dysgwyr gradd gyntaf rhan-amser sy'n bresennol mewn addysg uwch ddwy flynedd yn dilyn blwyddyn mynediad i ddysgwyr sy'n byw yn y DU. | Amcan 3: Cefnogi a chynyddu dilyniant, cwblhad pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a'r niferoedd a gedwir o'r grwpiau hyn | N | | 2017/18 | 20 | 70.0% | 20 | 10 | 70.0% | | 72.4% | | | | | | | | |
| 3 | Cynyddu cyfran y dysgwyr gradd gyntaf rhan-amser sy'n bresennol mewn addysg uwch ddwy flynedd yn dilyn blwyddyn mynediad i ddysgwyr sy'n byw yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. | Amcan 3: Cefnogi a chynyddu dilyniant, cwblhad pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a'r niferoedd a gedwir o'r grwpiau hyn | N | | 2017/18 | 0 | 0.0% | 5 | 0 | 0.0% | | 80.0% | | | | | | | | |
| 4 | Cynnal cyfran yr holl ddysgwyr sy'n byw yn y DU o bob oed sy'n astudio addysg uwch ac sy'n dod o ardaloedd isel eu cyfranogiad yn y DU. | Amcan 2: Denu darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol | N | | 2017/18 | 3,815 | 39.4% | 3,815 | 9,675 | 39.4% | | 39.4% | | | | | | | | |
| 5 | Cynnal cyfran yr holl ddysgwyr sy'n byw yng Nghymru o bob oed, sy'n astudio cyrsiau addysg uwch ac sy'n byw yn nau gwintel gwaelod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | Amcan 2: Denu darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol | N | | 2017/18 | 2,815 | 39.1% | 7,200 | 2,815 | 39.1% | | 39.1% | | | | | | | | |
| 6 | Cynnal cyfran yr holl ddysgwyr sy'n byw yng Nghymru o bob oed, sy'n astudio cyrsiau addysg uwch ac sy'n byw yn nau gwintel gwaelod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | Amcan 2: Denu darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol | N | | 2017/18 | 1,300 | 18.1% | 7,200 | 1,300 | 18.1% | | 18.1% | | | | | | | | |
| 7 | Cynyddu cyfran dysgwyr israddedig amser llawn sy'n bresennol mewn addysg uwch un flwyddyn yn dilyn y flwyddyn mynediad i ddysgwyr ac sy'n byw yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. | Amcan 3: Cefnogi a chynyddu dilyniant, cwblhad pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a'r niferoedd a gedwir o'r grwpiau hyn | N | | 2017/18 | 640 | 85.6% | 745 | 640 | 85.6% | | 90.0% | | | | | | | | |
| 8 | Cynyddu cyfran y dysgwyr rhan-amser sydd ag anabledd yn unol â chyfartaledd sector Cymru. | Amcan 1: Hyrwyddo a diogelu mynediad teg i addysg uwch gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol | N | | 2017/18 | 176 | 11.7% | 1,498 | 176 | 11.7% | | 13.2% | | | | | | | | |
| 9 | Cynyddu'r ddarpariaeth cymorth iechyd meddwl 1:1 sydd ar gael | Amcan 1: Hyrwyddo a diogelu mynediad teg i addysg uwch gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol | N | | 2017/18 | 237 | | | | | 255 | | | | | | | | | |
| 10 | Cynyddu lefelau bodlonrwydd 'cyffredinol' dysgwyr Du ac Asiaidd yn unol â'r cyfartaledd ar draws y sector yn yr Arolwg Cyffredinol o Fyfyrwyr | Amcan 3: Cefnogi a chynyddu dilyniant, cwblhad pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a'r niferoedd a gedwir o'r grwpiau hyn | N | | 2018 | | 85.4% | | | | | 86.5% | | | | | | | | |
| 11 | Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n cyflawni o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg | Amcan 2: Denu darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol | N | | 2017/18 | 2,012 | | | | | 2,000 | | | | | | | | | |
| 12 | Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n cyflawni o leiaf 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg | Amcan 2: Denu darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol | N | | 2017/18 | 418 | | | | | 500 | | | | | | | | | |
| 13 | Cynyddu cyfran yr israddedigion amser llawn sy'n bresennol mewn addysg uwch un flwyddyn yn dilyn y flwyddyn mynediad i ddysgwyr sy'n byw yn y DU | Amcan 4: Rhoi i bob un o'n dysgwyr brofiad cefnogol a chynhwysol o ansawdd uchel i'w galluogi i gyflawni eu potensial yn llawn | N | | 2017/18 | 2,060 | 81.6% | 2,525 | 2,060 | 81.6% | | 87.0% | | | | | | | | |
| 14 | Cyrraedd ein sgôr meincnod ar gyfer bodlonrwydd cyffredinol yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr neu ragori arni | Amcan 4: Rhoi i bob un o'n dysgwyr brofiad cefnogol a chynhwysol o ansawdd uchel i'w galluogi i gyflawni eu potensial yn llawn | N | | 2018 | | 86.5% | | | 86.5% | | 87.0% | | | | | | | | |
| 15 | Cynyddu cyfran yr ymadawyr sy'n gweithio neu sy'n gweithio ac astudio mewn swydd reoli / broffesiynol 6 mis ar ôl gadael. | Amcan 7: Cryfhau cyflogadwyedd Graddedigion Cymru | N | | 2016/17 | 1,178 | 70.5% | 1,672 | 1,178 | 70.5% | | 72.7% | | | | | | | | |
| 16 | Cynnydd yn nifer y bobl sy'n symud ymlaen mewn addysg bellach oddi mewn i Grŵp Y Drindod Dewi Sant i raglenni addysg uwch Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | Amcan 5: Datblygu a gwella ein partneriaethau a'n conffederasiynau â sefydliadau eraill, i gynyddu cyfleoedd addysg uwch a dilyniant i ddysgwyr | N | | 2017/18 | 356 | | | | | 375 | | | | | | | | | |
| 17 | Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio ar brentisiaethau uwch a gradd oddi mewn i Grŵp Y Drindod Dewi Sant | Amcan 6: Parhau i weithio'n agos gyda chyflogwyr rhanbarthol i nodi meysydd angen a datblygu poblogaeth fedrus ac addysgol, gan gynnwys trwy gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith a Phartneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol | N | | 2017/18 | 379 | | | | | 616 | | | | | | | | | |
| 18 | Cynyddu nifer busnesau newydd graddedigion sydd wedi goroesi o leiaf dair blynedd. | Amcan 7: Cryfhau cyflogadwyedd Graddedigion Cymru | N | | 2017/18 | 413 | | | | | 443 | | | | | | | | | |